# YR ERIOED

CERDDI YN DECHRAU 2017

## YR ERIOED

Hwn oedd yr erioed, y sêr a'r lleuadau hyn.
Y rhai megis yr adar a gân yn anorffen crwn.
Dyma ni wedi dod yn wresog ein cyrff, wrth ddod
o hyd i rywbeth mewn dim. Araf deg piau hi led y nen.
Yr hyn a hoffaf i yw'r deddfau. Maent yn ymdwymo
yn ein ceseiliau gan wybod bod y rheini'n agos at
y calonnau, at y 'telos', wedi eu llunio gan
fysedd gwybodus a gyfeiriai tuag at y drefn.
Dyma'r peiriannau macro cyfeirio at beiriannau'n cyfeirio
at bethau meicro. Wedyn llai. Mor hardd, mor brydferth, yn hongian
wrth y galaethau trefnus, fel blodau'n gwyro'r brigau, bob un
wedi'i diwnio i'w gilydd. Ac onid yw'r DNA yn
cweryla â'i gilydd: ond yn rheidiau mor rhadlon?
Eto, ar y gornel saif Gwyddoniaeth yn gwyro'i phen
mor isel, yn wylo dafnau tlws o'r nef gydag arddeliad.

## YN Y GWELY

Po hynaf yr af, lluosocaf yr â'r cwmni
yn y gwely. Mae'r fersiwn hwn ohonof yn unig
yn synnu wrth weld dyneddon yn cripian
rhwng fy mlancedi, gan arddel enwau enwog
yno fel Jung a Dostoiefsci a'r Apostol Paul.
Maent i gyd yno bob noson yn ffrwtiannu
chwerthin ac yn treiglo fel gwanwynau lawer
rhwng bysedd fy nhraed, – fy ngorffennol, ar fy mhen,
ar y tymeitiach llychiog a gorlais yn Nulyn,
y beichiau bochiog a ddisgynnodd arnaf yn Qúebec.
Y maent i gyd yno yn gwau trwy'i gilydd
yn ddireidus, yn hiraethu yn y Gambia am gwsg.
A'r nid-fi. Ond dim ond yr Ef, sydd ynof.
Mae deunydd yn iawn, medd y lleuad
â'r sicrwydd a ddihatrodd o bob myfïaeth, wedi i'r Arall
osod tlodi, a fi yn y copïau ar y llawr yn dwt.
Yno y mae'r llinellau cyfochrog syth maes o law
ac mewn rhai amgylchiadau, ac mae amser yn
arafu nes ei fod ar Batmos ac ym mhobman
yn cael ei ddistrywio gyda'r 'Big Bang' diarhebol
nes bod y ddaear  a'r nef yn mynd yn jibidêrs
dros y lle, a dyna yw cymdeithas ddireidus y blancedi.

# GÊM Y PLENTYN

Ym Mabylon fe fentrodd dyn yn falch
roi'i ddeall ar ben syniadau mawr o drefn
ei hawl i gyfrif. Taenodd wyddor ei gelfyddyd
hen.  A'u cymharu â'i gilydd. O! teg, a thecach
na gerddi'r lle yn taenu'u trefnau'n dynn
nes eu bod yn gariad. Moesau a'u gwnaeth. Ac yna
dyn a dynnodd y fricsen waelod, y drydedd fricsen ar ddeg.
A syrthiodd y crafwr-wyneb ar Efrog Newydd. Difaodd
Foscow a Beijin. Beth wnaf i nawr yn gorrach yn y llwch?
Edrychwch yn y mwrllwch, a fu cyn yr adeiladu. Yr un
pan fydd golau drwy ddryswch hunan yn pwyntio'n ogoneddus
tuag at ddiwedd hynt prydferthach na phlentyn bychan wedi dysgu
wrth chwarae ar y llawr â'i flociau tan weld y cwbl
ar ei bwys wedi'i chwalu'n yfflon mewn balchder.

# Y GENI

Fel y gwaedda poenau'r geni
am y newyddanedig, felly

y gwingi di am yr un sydd
yn dy groth. Ei ddoethineb sy'n

udo am dy feddiannu di oll,
yna ddatgloi dy ddwylo i ymestyn

at y gofodau llawn fel cael diddanwch
mewn ffilm sy'n bodloni fod y da

yn ennill, ac yna, cripiaf i ffwrdd
yn  y diwedd oherwydd mai'r Arglwydd oedd

yn y cwlwm, a'r cwlwm yn fy rhyddhau
fel llwybrau'n ymagor allan o'm tafod.

## Y CASGLIAD

Dyma'r rhan o'r gwasanaeth a ddynodwyd
ar gyfer casgliad. A dyma fethu â chasglu

meddyliau i'm plât.
Ond ar eu holau
dôi darnau corfforol
crombiliau dwfn a dof.
Fy hanes i

i mewn i'w hanes Ef i'w gyfoethogi'n allanol,
gan Frawd a'm gwnaeth yn gynnwys iddo'i hun.

Fy nghario y mae'r gwaed a'm gwnaeth
yn groes, yn offer iddo Ef eich palmant gwag –

yn ymgyrraedd anghysurus ac yn cofleidio.
A fynnaf Gymru yn y cysur hwn

neu'i gadael yn ei malltod? A fynnaf
ei chario hi yng nghrud Ei freichiau

heddiw? Ysgafn yw hi mewn hiraeth am y daith.
Garddwr yn hel y rhai a syrthiodd ar y llawr.

Mawr yw'r man cyfarfod ar ôl, er gwaetha'r dorf,
a'r rhai a syrthiodd o fewn ei freichiau'n gysurus.

## SEREMONI CHWEFROR 29

Mae erwau o eira
gan y deall yn rhewi'r
gwyn sy'n casglu
tywyllwch drysau –
lle da i weld cathod meirwon
yn cael crothau i'w mynegi'u hunain.
Unig ymysg llwybrau'r genedl.

Clywais gwbl y gogledd.
Roedd Gwynedd am frysio i fod yn Wynedd.
Byddai gweddill bywyd yn fodel
i'r lle lyfu Indiaid Meirionydd fel hyn
– pegwn y byd sy'n ymwasgu i mewn i'r cerbydau,
a'r bechgyn bach yn clebran ac yn dynwared
piau hi. Cywasgwyd y nefoedd oll
i mewn i ddwylo sy'n siglo, siglo'i gilydd yn syn.

## YR AWYRENNWR

Ar ôl cwymp yr awyren, a'r awyrennwr
fel pe bai'n mynd yn rhan o'r môr,
heb foddi, ond yn cael ei gario i'r wyneb,
edrychai drwy lygaid sgleiniog gwydrog,
ni welai ond ei wallgofrwydd yn crwydro
fel ffŵl. Roedd ei ymennydd ar goll.
Ni allai ddod o hyd iddo y tu ôl i unrhyw
don. Gwallgof oedd ef yn cloffi ar estyllen
weddill o don i don. Gwaeddai'i wacter
ef drwy'r milltiroedd gwirion. Ceisiai
feddwl am orffennol cwlwm deuol. Ond ni allai
yn y cyfeiriad namyn cael celwyddau hyderus.
Bob bore a hwyr fel Philip o Facedon
dôi'r môr fel chwyn drosto a chyhoeddai
'Philip, rhaid yw i ti heddiw farw yfory.'
Diwedd oedd y dôn. Ac nid oedd yn ei chredu.
Roedd yn debyg i hadau dant-y-llew
yn chwilio yn yr awyr am dir i ddod
i lawr a gwreiddio ar y ddaear mor hardd.

# Y MÔR

Carthodd y môr ar wyneb y don.
Dyna'i waith yn ymarfer ar gyfer y dydd.
Mor addfwyn dy gerydd yn codi o'r sgyfaint.
Pa daith a rydd garreg i'w fab?
Ond os gan y Crëwr y derbynia'r mab
yr unrhyw garreg, mae'n adfer y mab i'w deyrnas.
Heb fod yn llwfr, fe ddysg Duw inni ffoi.
Daearyddiaeth sy'n mynd ar goll yn nhonnau'r môr:
daearyddiaeth yw'r dyfnder lle y tyf gwymon.

**Y METAMORFFOSIS**

Cofleidiais fy mhenliniau
a sbio dros y clogwyni
i hel eu breuddwydion pellennig hudol.
Perchen difrif y parchus. Nid etifeddai canrif erioed
well yn ŵyr iddi, a'i hawl hiliol yn eiddig.
Yma mae fy had yn dechrau yn wên i'r eiliad,
cyflymai wrth gyrraedd ei frig, hau chwyn hwylio
oedd her y bychan ar fyd y crud cras.
Gwasgarai'i chwerthin fel glas-y-dorlan
ar hyd yr afon fel aur newydd-anedig.

Ond beth wyddent hwy? Rhaeadrau, gwawriau'n torri,
hen chwedlau'n cracio llusernau. Gwell ganddynt
ddydd felly, un a oedd yn curo dwylo, ac wrth
wisgo ar gyfer parti. Cerdded adref yw brysio
i gôl y nefoedd, storm dangnefeddus. Agorwch ardd
` eich ewyllys, a bownsiwch eglurdeb oren ac iraid win.

Cnôdd y ci ei dafod a chael blas ar yr heulwen
a drawai'r trothwy o'i ddeutu, wrth orwelion yno
drwy'r bore. Roedd yn mwyhau gorwedd yn ormod
i fynd gyda'i feistr am dro. Drwy gil ei lygaid
gwyliai blant Penparcau. Tawelwch a deyrnasai
i fyny acw fel bod talcen y ci yn cael ei dresio;
a'r hyn a welai'r ci oedd, yn hongian ar goeden
Nadolig, ddim llai nag odlau oedrannus ei draddodiad,
cenedlaethau o eist yn ymestyn drwy
addurniadau gwael a thrwy gariad yn hongian ar seiniau.

# YR WY

Nid Fe oedd e,  a'i ddymuniad oedd bod
yn ddiflaniad ynddo. Fe beidiodd â bod yn sŵn
lle'r oedd ei law ef yn golledig yn hynny o beth.
Hofrannodd Hwn uwchben y Forwyn wy
a'i harllwys ar y llawr dan droed ei gŵr.
Gymaint o ddrama  oedd hyn mewn pentref bach
y smotyn hwn, fel brig o lawr y saer,
yng nghadwyni Rhufain. Ymestynnai Duw ei hun
yn rhydd fel trugaredd neu fel dicter Duw.
Ar wyneb y ddaear clyw y clychau llon,
a'r môr beichiog. Safwch ar y mur fel sôn
goleuni'n cydio wrth wybren calon, nes
i'r plisgyn esgor ar gyw a fydd yn clochdar.

## MADDEUANT

Fel y brefa'r hydd am yr afonydd dyfroedd,
felly y dychlama calon yr Arglwydd amdanaf i

am ei fod wedi fy mhori i ymhlith y porfeydd
gwelltog, fe welai fy mhrydferthwch gogoneddus

yn sobri'r wybren, trigfa corau'r gwanwyn. Dywedant wrtho
beth yw bywyd ymhlith mawrion cyfreithiol y ddaear.

Chwalfa yw'u moesau yn nerth ei ddwrn. Ac ni wŷr epaod
esboniad yr Un nad oes dim yn bodoli hebddo.

Er brysio i fynd heibio iddo, gwaedda ddiwedd.
Y mae gwaed y merthyron yn ubain fy hanes

nad oes mab yn eu credu. Welsoch chi erioed
y fath waed a redai i gyfarfod â ni, –

Rawlins White, Richard White, fy nhylwyth i gyd
yn dawnsio sgaffald ac yn estyn maddeuant i'r pencampwr

wrth iddo wylofain erioed am gael oesoedd pydredig
o ddannedd gwastraff, gwan, aflan, arian, di-Oen o'n ffydd.

## CASGLU NOSWEITHIAU

Rwyt yn adnabod y nos pan fydd yn llefaru.
Rhedi, ac y mae'n bloeddio ar dy ôl.
Ni elli di redeg yn ddigon clau
oherwydd y mae plu ar dy wisg, yn cydio
yn dy groen. Mae'n neidio  o dŷ i dŷ,
ac mae'r neiaint a'r nithod yn cario'r feirws.

O! ble mae'r düwch? Oni bai amdano fe, ni chawsid
barn. Nis adnabyddwn; a heb y cariadon, ni byddai
a wyt ti, fy chwaer,
yn gallu cysgu mewn cusanau mor gemegol?
Rhaid wrth ddannedd wedi bod mewn golchwr dillad i wenu.

`Yn yr haul di-ben-draw, y glyn acw sy'n gorlwytho'r
gwyll â chyfrifoldeb. Gorymdaith llygaid a stopio'r gwaed.
Gwefrodd dy fronnau, a methodd y glaw â chyfri i lawr
cefn dy war fel poen. Mae absenoldeb y munudau mor
wibiog a phryfed ar y croen. Ac uwchben y tai-pren plyg
y llanciau a'r llancesi a cham ymlaen i'r lludw araf.
Mor araf yw'r nen, a'r baich ar eu hysgwyddau.

Buont yn clebran â'i gilydd. Ond blino, a
rhannu'r blinder gyda'i gilydd. Poerent yn gymdogol,
a hisiodd y wlybaniaeth yn gerddorol ar yr ffender.
Cytunent â'i gilydd. Byddai rhaid inni ddod acw yn isel.
Ni fedrai'r haul ladrata'r penlinio a oedd i ni
yn ddyledus. Whi! Sbwylio nas sbwyliwyd gan y brwyn.
Hyn oedd dod adref. Hyn hefyd oedd Un yn cerdded i ffwrdd.

## SEMOLINA

'Mwd' 'dwy'n ei alw. Mae'r sawr anghyfeillgar hon
mewn gwirionedd yn rhyw fath o enw-cael-sbort am ben
cyd-bererin drwy'r dwst a'r dail, ar gyfer cyd-bererin anolygus
drwy unigrwydd y tipyn deiet sydd ar ôl,
ac i'm stumog ddethol grebachu a chyfyngu. Rhaid i mi wneud
y gorau y gallwn. Wnaiff rhegi'r naill ddim lles. Chwerthin
sydd weddus wrth gyrraedd tua'r diwedd anhaeddiannol o gysurus.
Ond gwenu'n  dyner heb ofn ffug gyd-deimlo sydd orau.
Aethom yn bellach na'r disgwyl. Ac yn awr, codwn ein
pennau i anadlu awyr yr wybren agored a ddarparwyd
yn y fan hon. Ow, Arglwydd Wybren, Faddeuwr y Dwst,
diolch am Dy freichiau'n estyn a'th Gân yn caru.

## PANTYCELYN A'M BEDDFAEN

Roeddet ti'n iawn, Bantycelyn, pan
drawet ti gip arferol a syth-dywyllwch
ar fy medd. Dyma gyfarfod hyfryd
iawn. Myfi yn dlawd a Thithau'n llawn,
i lawr drwy daranau'r blynyddoedd.
Mae fy meddfaen bob amser yn iawn
rwyt ti'n ei anadlu ohonof, 'myfi yn dlawd
heb feddu dim ac Yntau'n rhoddi
popeth im.' Pob peth, trugaredd, a phob un
yn ffyddlon hyd fynyddoedd gwynfyd.
Mor Bantycelynnaidd, a thithau o dan Ei afael.

Gan Gwydion gynt un pwrpas oedd pan aeth
i Gaer-went draw – i gynnal caer yn erbyn
hen ddydd brad yma, fy sglodyn-bloc a'm had.
Ar afon Hafren chwythai'r gwynt i fyny.
Chwifiai freichiau, ond nid oherwydd boddi,
heb ddim ond buddugoliaeth yn ei lais.
Aber Aberystwyth o bendraw gwlad sy nawr
ym mhen fy mhendro diolch. Buost yng Nghorea.
Ac mae dy lais yn ateb nawr ei bythol
gyfwng. Plymia wylanod a llosgi'r dŵr,
ond ymglyma wrth y bedydd ac wrth brydydd.

# BYD Y CLOWN

Clown oedd Trump: Corea oedd
ei degan pennaf, gydag ambell beth
wedi'i daflu i mewn ar ben ei dalcen
megis Tsheina. Ond nid dyna'r cwbl
oherwydd mai byd oedd ei blwyf ef.
Rhedai i fyny ac i lawr. Nid oedd
digon o le i'w chwarae. Ond fe
oedd Trump. Rhaid oedd gwasgu'i
anadl hyd bedwar ban y cawl. Ei hawl
oedd popeth. Yn y man, fe'i credwyd
gan ei deulu a lanwai'r byd a hyd
yn hyn bu amser yn torheulo uwchben.

## CÂN SERCH AM GARTHU GWDDF BRON YN BEDWAR UGAIN OED

Fel y bydd dy garthu gwddf annifyr ac anhyfryd
yn seinio'n bêr yn y bore, wedi imi fethu
â chysgu – yn ôl fy nhalent annifyr ac anhyfryd.
Neu felly, y bydd gwylanod wedi teithio dros foroedd
Iwerydd wrth ddisgyn i'n simnai gyda brigau eu nythod
yn cael eu stwffio, nes y byddant yn tasgu i lawr
ar draws ein carped, neu felly y tegir yr awyddfryd
clên i'th foli di, fy nghariad syn a sydyn
mor galon-gynhesaf, ac felly yr hiraethaf i
drwy'r blynyddoedd tirion mor gryno ac anghynnes
am eu cadw hwy beth bynnag a ddywed y carped
a nes ein cadw i garthu gwddf mor lân o'r newydd
yn agos at ein gilydd yn hir, yn dyner ac yn ddwl,
yn gwpl o gariadon ifanc heini o dan y pwysau hyn
nes y daw ar bawb na ŵyddant am foroedd hapusach;
a chythrwbl fyddwn nes y bydd ein perfeddion yn bur felly, –
bara o'r nefoedd, digon nes nad oes eisiau mwy.

## Y PERERIN

'Sut y caf i ei ddisgrifio? Ai blinder yw hwn
sy'n gwisgo fy esgyrn yn bowdwr nes fy mod
yn gwichian?' GWAETH. 'Pa wawchian yw hyn
na allaf ei ddal yn ôl?' GWAETH. 'Yna,
Yna ar fy nghefn ai safle i chwalu'r waedd yw
wrth orwedd?' GWAETH, 'Ai ysigo â malurio
a gwastrodi yn y breichiau a'r coesau hyn?

Na. Addysgu yw hyn beth yw'r wir sefyllfa, dy fod
wedi bod ar daith goleuo am dy le. Dy grensian
yn ddarnau o gariad sydd bellach yn lled barod
ac yn lled rithiedig i'th wneud yn bererin.

## ADNABOD

Mae yna rai pobl yn wir,
yn gyfrinach iddynt hwy eu hunain, (ond ni ddylet
ddim ei ddweud.) Maent yn ias
i'w darganfod, ac yn realedd sy'n cael ei greu.
Ac yn y creu hwnnw maent yn eu gwneud eu hunain
yn fyd dilys. Yr hyn sy'n digwydd
yw ymgyrraedd at berson cudd.
O! mor hapus, wrth ymgyrraedd ato
mewn dychymyg. Cyfrinachedd o hyd fydd
yn yr ymostwng iddo'i hun. A hyn yw'r
wybodaeth draw ynddo sy'n help iddo,
er ei fethiant, i ddeall popeth.

## PORTREAD O BREGETHWR

Mae'r sawl sy'n hiraethu o ddifri
am y nefoedd, eisoes
wedi'i chyrraedd.
Ni ŵyr ef lwyddo ond drwy
beidio â methu.

A'i gydbwysedd ef yw calon ym mhob un llan.
Pan gluder y mynyddoedd gyda'i gilydd,
twmpath morgrug ydynt.

## GLANGWILI

Rhaid bod blynyddoedd diwyd wedi bod
Yn rholio'u glendid rhwng y glannau hyn
Cyn i mi ddod â'm llygredd innau.
Y drygedd hwn a gariais yn hadau mor ofalus
I mewn i'r wardiau hyn, a'i ledu'n her.
Ond parod oeddent hwy mewn diwydrwydd
Yn nyrsiau, yn feddygon, a'u gwrthryfel
A'u caredigrwydd afresymol celfydd. Dowch nawr
I'r byd hwn, a threiddiwch i'r holl nentydd:
Moe haelionus – tan estyn dwylo atoch. A bydd rhai –
Fy nheulu pryderus trwm yn curo dwylo
Wrth groesawu un mor eiddil yn ôl i'w haelwyd.

## CYNGOR YR ANASTHETYDD

'Pe baech chi'n fam i mi
byddwn i ddim yn ei wneud;'
ac yna, ger fy mron, yr oedd milltiroedd
o'n lleisiau fel paith yn ymestyn
ar hyd y milltiroedd o edifarhau
ac o beidio ag edifarhau
fel petaem yn cadw rhyw batrwm
blinedig o ddylyfu gên ystyriol –
hen amharchu, yn y mannau
cariadus wedi casglu llaweroedd
o gariad am weithredu mawr, heddiw.
O! fel y mae heddiw mor bwysig
a'r doeau crin a gwyn mor hynod flinedig.
Felly yr agorodd yr harddaf ohonynt i gyd
ei llygaid parod, a theyrnasu dros y ddaear.
Drôr oeddem na ellid ei agor, a'r unig beth
y gellid ei wneud â'u holl gyhyrau oedd
dod â bwyall, a thrwy fôn braich, ei ddistrywio
fel gwiwer wedi cyrraedd ...wedi hel ei gelc erbyn y gaeaf.

FY EWYLLYS I WYN  A CHRISTINE JAMES

Mae yna rywun wrth grwydro yn y gellïoedd
tywyll y byddem yn eu hoffi eu
cael i ddweud wrth y dyfroedd caredig
amdanaf. Nid am eu bod yn
fwy gwenieithus nag y dylet fod, er bod
hynny'n wir, ond am eu bod wedi'u ffurfio
ar gyfer y gellioedd priodol, a'r adar wedi'u
gosod yn y canghennau iawn, a'u gwarchod
yn gwybod am y man yn fy nghalon i'r
galon faddeuol  eu gosod. Ac
fel y mae angen ennill y maddeuant
hwnnw a'i gasglu air wrth air, ---  i'm ffrindiau amyneddgar.
Celwyddau ydynt i gyd, ond wedi'u claddu yn y twll
tywyll lle y mae cegau yn gwybod y ffordd o gwmpas
y lle, Ow mor feirniadol gywir sy'n angenrheidiol !

**Y GWIR**

Pan fo'r nyrs yn yr ysbyty
yn amhosibl o garedig,
a meddygon ar y wardiau
yn lledu eu caredigrwydd;
does dim byd i'w wneud
ond llawenhau yn
y rhyfeddodau hyn.
Dyna hanes y llwyth
i'w ailadrodd fel mewn wigwam.
Dyna hanes uwchben y
bibell heddwch sy'n
ffurfio traddodiad hir yr
oesoedd. Dyna'r hyn
sy'n agor cegau rhyfeddod
y plant. Fe â'r fan yna fel
yr â tuag at y
plant eraill cymdogol. Nhw sy'n
ffurfio yr oesoedd.
Nhw yw'r byd fel mae i fod
Nid cyfrinach mewn cornel.
Dathlwn hyn ar hyd yr oesau
Ni ŵyr neb arall oll y
gyfrinach ryfedd hon o
fwynhau gwirionedd gwaelodol y galon.

## O'R GWELY

A minnau yn hen ŵr yn fy ngwely, glŷn fy llygaid
wrth yr wylan yn bilidowcorddi'i hwyl
yn ôl ac ymlaen, ar slent i lawr acw
ac i fyny gan dwistio'r ffrâm ffenest –
a chordeddu, a gogwyddo, a
chyfrodeddu, a phlethu, a
chwyrlïo'u sgyrtiau'n erotig i fyny fry.
Symuda'r byd i gyd, felly, ben i waered. Hen ŵr
diymadferth o hapus yn hwylio allan acw o'r
golwg, cyn i'r ffrâm ffenest ddod i ymosod unwaith eto
arno. Diolch yw edrych: dyna
yw pwrpas gwely – hwylio
o eigion i eigion glas:
môr wedi'i longddryllio o'r golwg yn jibidêrs
mân. Ymgollaf yn y drylliau cysurus draw,
i fyny, i fyny draw o'r golwg fel y dylwn fod,
yn torchi fy llawes ar gyfer y pwrpas hwn.

## GWENU BRON YN SONED

Mae llawer un wedi dechrau
sylwi bod rhywbeth yn bod
arna-i, a phob callineb
wedi droi'n gollineb, a'm tipyn
llygaid i'n pefrian, a finnau'n
hepian yn  hapus yn dy freichiau.
Rwyf  finnau wedi troi'n fath o addoliad
yn dy ddwylo cariadus dan d'ofal.
Yn fy ngwendid yr wyf yn gweiddi
'Hwrê'. Gwyn yw du mwy, a'r ddaear hon
i gyd yn nefoedd las, binc, goch,
gwyn a lliwiau'r ddraig yr holl ffordd
i Strim-stram-strechleth – gwyliwch y pyllau
o ddagrau llawenydd. Wele'r Sul.
Beth amdani? O leiaf (i mi), dyna a ddaeth.

## DEWIS METHEDIG

Efô neu fi?
Dyna oedd y dewis.
Mor hunanol ŷm ni.
Ac yn hyn
o gyfwng, bernais mai bywyd
y byd hwn oedd y lleiaf
o'r drygau. Ac ar led
yn Aleppo y dyddiau hyn, a lle bynnag
y bo buchedd a deall honno
yn ymddangos fel pe bai
yn drech na gwraig
neu blentyn,
nid oes symlder
yn yr un paradocs.

## GWEDDI

Mwy na gweddi dros fy ngenau
sy'n fy nathlu i.
Duw ei hun a ddaeth i siarad
ac i leisio 'nghri.
Ef yw'r Un sy'n geirio f'angen
am feunyddiol Ras
ac yn lledu dros fy ngwefus
ei hyfryd flas.

Ef yw ngheidwad, Arglwydd angau,
o ddydd i ddydd.
Mwy na geiriau yn y bore
fy ngorfoledd fydd.

CAROL

Neidiodd march nos; gweryrai
yn garol newydd ddod
i fyw mewn syndod acw
a'i gwyrth yn glwm i'w glod.

Bu'r nen yn casglu breuder
lle hyrddia'i golwg syn
dros wyndra nef y nefoedd
am wyrth hyfrydwch hyn.

Tu mewn i mi mae cartref
i guddfa gariad fod.
Yno mae llonder llygaid
mewn cân yn dilyn rhod.

Hwré i sŵn y galon
sy'n llenwi gwacter bod.
Daeth diwedd pob diflastod –
Mae'r Duwdod wedi dod.

Dros Bentecost mae'r celyn
yn addurn lond y coed.
Mae Iesu'n wefr i'r tymor
a daeth ei gân i'r oed.

## GWRID PLESERUS NAW DEG NAMYN DWY

Rhyw hen chwedl, newydd a chryf
gyda'r nyrsys o'm deutu: peth felly
sy'n grymuso y clindarddach chwerthin
pan gerddi di i mewn i'm breuddwydion
di-gwsg. Siociant fel balm toreithiog.
Ti sy'n iacháu, sy'n caboli'r cerrig
sy'n rhedeg dros bob cangen tirion.
Dyma lofnod yr Arglwyddes ar ei gorchudd
yn tywynnu. Beti fechan derbyn hyn
o deyrnged gan un a'i mygwyd gan olau.
Nid edrych ar oedran. Gwaedda, 'Maddeuant,
maddeuant'. Grawn barn wedi'i hel mewn nef
yn anrhydedd o sillafau pêr sy'n coroni
syfrdandod fy ngên am y fath foeth heddiw.

Trwstan a diathrylith gerbron bun
yw dawn y gwrid grymus erbyn hyn.

Annaturiol yw anturio
ymhlith rhosynnau mor fentrus.

Uchel yw medd dy ddedwyddyd.
Ceredigion o sbri yw ei gwmni,
cannwyll yn y cof, na ellid
ei hosgoi. Mi ellir bwyta meillion
oddi ar dy fochau bychain godidog.
Toddant yn gneuen yn fy ngheg.

## GWYLIED Y TELEDU

Doedd dim esgus, heblaw rhuthro i ymddiheuro
am ei bod Hi, heblaw-methu-â-cherdded-unman,
nac yntau heb-fedru sefyll, yn unman yn hir.
Rygbi oedd y pryd liw nos, neu Trump yn casglu
dychmygion pêr am America, yn y blaen i bawb. Hen chwedl
am y Tuduriaid o Gymru. Y fath ddeinosawriaid
yn plismona'n hir. 'Fi sy wedi ennill; nid nhw, dŷn nhw
ddim yn bod,' hwyaden-rodia hyd y sgwâr. Bawb
arall yn crio, fel meddwyn wedi bwrw'n erbyn
car yn nhywyllwch y giât i fynwent Aberystwyth: sut
dwi'n landio'n ôl yn y lle 'ma? Rhaid bod rhyw
ymserchu rhyngom ni'n dau. Mae wedi cael ei dodi yn y seler.
Lle popeth: fel y teledydd, hiliogaeth deuluol, golau
a lliw'n strancio i dorri i mewn rhag tywyllwch, allan.
Beth wnaiff golau ar noson fel hon ond gorffwyllo dorri
allan, sefyll ar uchel dŵr? Allan. Diddymdra'n troelli
ar bwys y sŵn, y set, y gwely, a'm drôns ar y llawr
oll yn sniffian am fy ngolygon. Heddiw y gwelais y gwningen
y tro cyntaf ers ugain mlynedd. Ar gae'r Ficerdy.
Broliodd Gillian iddi weld un ddu yr wythnos diwethaf,
a rhaid imi gredu hynny os yw Gillian yn ei ddweud,
a llygaid coch, heb gi i'w gweld i'w phoeni yn un man.
Llygaid coch a du yn ddeuliw fel cefna gwenynen ar ffo
drwy waelod y Cread, heb na chri nac ofn.

# NOS

Di-ofn yw nos ymhlith y creigiau.
Anwybodus a meddw fel cardotyn.

O ddreinen i ddreinen, yn falch o fod
yn rhai a'u hadwaenant eu hun.

A'u gelyn marwol eiddil, wedi hel dy
ddistawrwydd defnyddiol, a hunan mwyach

na phoen. Oen bach gostyngedig ei gig
i geg fynych yw. Os yw'n dlawd, brawd yw.

Hapus orffwyll yw ymhlith mêl, a'i sêl
yn dyner o'i gasglu heddiw ato'i hun.

## PLANNU

Huawdl wrth blannu ar hyd y llethrau
dranc i'r tywyllwch yn eu twll adfywiol.

Mewn cwteri yn y byd defodol, gŵyr
am ymwared swyddogol â chaethiwed.

Planna blant a gwragedd beichiog. Plyg
frigau mewn gwreiddiau cudd. Nid yw'n methu.

Ar ei ben ei hun, gŵyr y canrifoedd
mewn bataliwn, a'u jôcs am ben Baal.

Cuddia eu cynulleidfa glwm cyn belled
ag y gellid yn y gân. O! Mor braf y wlad estron,

a ninnau, (dipyn dail), yn gorymdeithio mor bell
oherwydd ymddiddori mewn athrawiaeth lasgoll yr haul.

Eto, hyd yn oed yng nghanol hyn. O gael Ysbryd,
trawsffurfia ddwst ac anifeiliaid yn ddynion.

## MYNWENT ABERYSTWYTH

Bu John a Margaret Jones yn casglu sgôr
o flynyddoedd fel blodau mis mêl o dan
gysgodfa o ddail. Gwasgarwyd adenydd wydn
pioden priodas... Cant a dwy iddo fe, nawdeg
wyth iddi hi fel cenhedloedd yn gwreiddio
mewn cwsg adnewyddol, ac mewn glaw
cwerylgar sy'n cau eu hymbrelau ar ôl i'r storm
atal-dweud. Cripiwch allan, atgofion afradlon.
Cloffa'r tymhorau heibio. Y rhain, medd y proffwyd,
yw'r cyhyrau, fel cymdogion i angylion drwy fy llygaid.
Felly y bydd beddfeini prysur. Felly y bydd
goleuadau, yn adnabyddus ymhlith bywydau,
ac yn  marchogaeth ebolion hyd y llwybrau
dolennog. Maen nhw bron yn ysgol i'w dringo
fel mwg trên bach Ponterwyd yn anfon yr hwter
hyd at Bendinas hynafol yn unbenaethol.

JIM A JOHN

RHAG-GYHOEDDI FFAWD YN Y FFAIR

Sgidiau hoelion y cymylau
yn tarfu'n ddiog rydlyd
ar y môr ac yn clwyfo'r
boreau, mor ysgolheigaidd
â'r Arlywydd Trump.
Ymddangosant yn hir ac yn wir
fel y clatsiant, tynnant ar y cordyn.
Ni bydd eisiau iddynt
ddistrywio y byd mwyach.
Mae ambell un yn gwneud
hynny eisoes, mor hen â Chymru,
mor ddiddorol â babanod
ar gefn beic wedi colli'i
gilydd. Gwrandawant
yn astud â'u gwallt
a'u dannedd. Mae Trump,
sut bynnag, yn trowasgu
ei hirwallt. Doedd y ddaear
hon ddim yma y tro diwethaf
y bu'n edrych.
Doedd y ddaear ddim yma
y tro diwethaf y bu'n edrych.
Doedd e ddim eisiau dweud
am hyn gan ei fod mor swil
ac yr oedd ei benliniau'n
plygu dan bwysau nes bod
y morgrug wedi'i gnoi fe
i gyd, ac yn chwydu.
Paid â gadael iddo beidio
â chwydu, yn bennaf
am nad adawai ddim ar ôl.

Chwaraeai gardiau.

Erbyn y diwedd doedd dim

cerpyn yn weddill

ond sgalpel y llawfeddyg

a'r ddysgl gaboledig yn wag.

# MANION AM HYN I GYD

## Gwleidyddiaeth.

Dim ond mewn sefyllfa anweledig
y mae gwleidyddiaeth yn dod o hyd
i'r gwirionedd.
Dim ond yn y dyfodol y cais gwleidydd
ei nod, oherwydd  yn y dyfodol
yn unig y bodola ei fodolaeth.
Ceir dadl dau wleidydd; – trefn deddf ar bob cyfrif i ddau; ond
y naill mewn cyfoeth, y llall mewn tlodi
heb gwmwl yr Ysbryd sy'n rhyddhau.

## Serch.

Dim ond mewn sefyllfa anweledig y mae cariad
yn dod o hyd i'w gyflawniad.
Dim ond yn y galon gudd y gall serch ffynnu.
Mewn hapusrwydd y mae priodas yn anadlu'i
heiliad.
A chymer amynedd a chyd-ddeall y mae ei fodlonrwydd
gan gipio sydynrwydd araf y gegin, a'r gwely, a'r
difeirwydd ar benliniau, a phethau eraill o'r fath
lle y ceir cyfarfod.

## Swydd.

Beth yw swyddi eraill ond gofal amodedig
am gyd-ddynion? O dydd i ddydd esgorir
ar ofal, gan mai claf yw cymydog ar
ochr y ffordd. Cyffyrdda â bysedd, gan mai
hwy yw'r gadwyn ddu sy'n  carcharu cyfaill mewn
iachâd gwallgof o ddyletswyddol, heb hwyl.

## Hanfod Manion.

Mae yn fanion fel diwrnod gwlyb a chwythu trwyn
yn ymyl clogwyn mewn bae cêl, lle y deuir o
hyd i'r gydwybod a'r cof. O ddydd i ddydd
fe gasgla dau gregyn a all fod yn addurn ar
y silff gartref. Naid i ddawnsio, a braf fydd dy
awyr holl gyfandir hunan-aberth. Ni chais hanes
oherwydd mai yn y bychan a'i gefn ar graig y cafwyd nefoedd.

## Hanfod Syfrdandod.

Dyw hanes cwympo oddi ar gadair odid ddim.
Anodd i mi fyddai ennill marciau llawn gan
nad yw'r marciau'n cyfrif. Yr un fath gyda'r byd
yn troi, fel nad yw'n llwyddo i gofleidio'r
haul sy'n cyd-droi, a minnau'n cyd-waltsio gyda'm
beiau i gyd. Yn yr un modd, mae'r athro gyda'r
disgybl wedi llenwi'r llyfr gyda'r hyn sy'n
angenrheidiol i'r deall. Mae'r llanc hefyd
yn gallu hiraethu am fyw byth, a chadw
ei gof gyda'r ffrindiau sydd i fod bob amser.

## ENW AR GÔD

Chwilio yn y goedwig, dan y brig.

O blygu, y mae'n dod o hyd
i'r ateb nas disgwylwyd: yr ateb cudd.
Yr un sydd ar y llawr heb fod o'r llawr.
Fe fu yna ymgais i beidio â'i gredu am dro.
Rhyw fath o anwybyddu oedd. A'r llawr
a'r nen wedi ymgynnull, i ddatguddio o flaen
braw y llygaid: y braw caredig, a fu'n cloddio
o dan lawr daear. Ac eto nid yno, ac eto – –
roedd ganddo enw. Côd oedd. A bu'n cloddio
a chloddio, nes datguddio'r Un yna
na ddatguddir ei fywyd y tu hwn
i bob Prifysgol nes pensyfrdanu; tuag yn ôl-ymlaen.

### Medi

Mae Medi'n hau dail. A chwsg eu cwsg. Disgynna
a llawenha'r allor mewn cyfrolau,
a rholia gras ymhlith Israel, gan ddosbarthu angylion.
Arllwysa ac ildia y barilau ohono.

Dechrau yw'r diwedd. Syrthiant ar eu hwynebau
wrth ymaflyd codwm. Melys yw cyrchu adref.
Cyrcha'r plant i'w gweld a'u hel yn gusanau.
O'r diwedd, rwy'n canu. Cneifir gorfoledd fy ngwallt.

Cleddir y frân ddysgedig mewn pocedau gwag.
Yf, heb weithio, dlysni bonheddig, rhosynnog.
Min o hardd yw arian calon, ffynnon haelioni.

## Och

Pan own i'n ifanc, nid oedd fawr yn glir.
Hir oedd y llwybr, a'r drysi'n bell.

Bellach, rwy'n hen a'r diwedd nawr yn symlach
i ŵr di-waith, sy'n glaf ac yn edrych

drwy'r ffenest i weld y byd, heno'n
gliriach, ac yn normal neis. Nid ras yw hyn.

Nos Wener yw o le i godi coesau ar gadair.
Diolch na ollyngir dim gan angau. Y drws yw

i'r gwerthoedd i gyd: drws i'r chwilio heb chwalu.
Dyw'r gorffennol ddim yn wylo mewn cornel ei angau bach.

## Iaith Arall

Marchnad yw pren iach, fel heniaith,
yn ceisio her fwyn ddiadlam gwirionedd.

Oherwydd mae ganddi drastriw. Llun yw
un a ymyrrai â'i hir sidan glân yn estyn

ei dywydd dros dywyn dewr, yn wellwell
mewn byd gwael a miniog,
wrth ei threulio ar fin blynyddoedd.

Ni chyll gras ei hynt fan hyn. Duw yw'r anweledig,
hyd yn oed mewn gwleidyddiaeth, sy'n nyddu Ei werthoedd

di-gwymp a chytûn na ddarfyddasant erioed ymhlith
y cariad. Hyd yn oed yn y drwg dryslyd, mae Ef ar waith.

## Mwynhau'r Wyneb

Diolch: gallaf fod yn normal drachefn,
heb weld ond creadigaeth, a'r Crëwr

yn llamu yn ei afiaith drwy 'nghalon,

wedi nghreu yn llanc o'r newydd.
Anghyffwrdd yw gan amser crin. Un ar goll

mewn coedwig na all neb ei thyfu'n gleddyf.
Eira fel eira diwedd Mehefin. Cynhesa

gerrig y galon. Mae ffon ei hwyneb
ar gefn y dringo diwaelod yn gryndod.

## Serch

Uno yw ymhlith yr egin: tithau'n gardotyn
cyfoethog yn estyn d'adenydd dros

yr annealladwy, – fel dŵr, fel
dafn ar dafod. Mae siarad yn y fath

gwmni'n amhosibl. Bendith yw tewi
tew. Trysor, wedi'i hulio mewn hil

nad yw'n bod. Mae'n uchel yn ei achau,

fel eryr ymhell uwchben wybren, wellwell

wrth ddringo. Gwenynen yn pigo ystyr:
dyma weau pleserus a hir, hir.

**Y FFARWEL OLAF GO IAWN**

I

Ar ôl y salwch hir rwyf yn cripian allan.
Mae'r haul am roi ail siawns imi
'Mi elli di wneud yn well na 'na.'

Ac wele'r falwen feddw oddi tan ei charreg
yn gadael i mi bipian gwenu.
Mae hyn yn fath o syrthio mewn cariad drachefn.

Whiw! i lawr, dibyn eto, gan chwyrlïo
dros fy hwyl dost, yn ôl, yn ôl –
dim breichiau, dim traed, dim dannedd.

Dim ond y noethni peryglus o anghofus.
Maen nhw'n dweud fod mentrwyr
oddi tan y fan yna'n well,

yn ddoethach, yn cydochain yn well
na rhai cyffelyb, fod yr ail
yn drymach na'r cyntaf;

ond rwyf yn rhy brysur yn awr
yn cyfrif fy nannedd, a'm clustiau'n
rhy awchus yn gwneud eu gorau i wenu.

O leiaf maen nhw'n edrych ar y môr
yn wahanol, am fod y tir hwn
dan eu traed mor gyndyn o newydd.

II

Nid am ddim y gwneir y lle
yn dywyll. Nid chwarae plant oedd
peidio â gadael i le fod fel hyn beidio
â bod yn rhwydd (ond roedd hi'n bryd rhoi tas yn y to).

Cafwyd barn o fath. Ysgafnhawyd
ryw ychydig, taro cis yn swildod
y gornel. Rhyw wincio. Ac yna,
ei dywallt drosoch yn ddidosturi.

Addysg oedd i fod, o bosib,
gan adael i ti ddod i mewn
yn araf deg. Ystyllen oedd i achub
ar ryw fôr. Bore bach o bractis.

Addysg oedd, i'r bachgen drwg
yn y cefn, rhagflas o'r absenoldeb
cwmwl. Ailadeiladu pont.
Yn araf deg mae dal iâr.

Yn araf hefyd, mae dweud y gwir
hir. Ac ni bydd neb ar frys
yn cuddio'r ddaear rhag arddangos
yr haul balch, a'r teulu.

III

A dyma siarad drachefn. Ac o
siarad, canu. Dyma dorri iaith
o'r newydd fel plancyn i nofio
ar y dŵr, wedi'i ollwng i flasu
poer y llwnc, a'r cysgod ar y mynydd.

Datodais, dadwnes i'r gwau, y gwau sy'n gorffen gwau,
y gwau drwy'r dyrfa annwyl gan ochrgamu
er mwyn hwylio draw wrth ddysgu
siarad. Torrais eiriau petrus fel
torri pren i'r tân cysurlon.

Yna, y bore bach ei hun, yn torsythu
a'i ddwylo yn ei bocedi fel pe bai'n
berchen ar y lle, yn gwybod am bob twll
a chornel. Ac yna, yn ddiarwybod fe sylwai
iddo fod ar goll, am dro – y tro mor gas.

Yno y darganfu dawelwch, y distawrwydd
ciliedig.Y gornel gudd na wyddai'r
byd amdani, fel hyn. Hyn a fwriadwyd
– lle a grwydrodd i'r mynydd, - fel rhyw
gynffon, yn chwilio amdani'i hun.

Torrwyd torlannau'r llonyddwch ar ôl
storm anghwrtais. A dechreuwyd hyfforddi,
mewn cyfandiroedd sych: lle i orwedd
ar dywod, ac i rolio'n dawel fel cwsg
` yn rholio drwy awyr wen o freuddwydio...

IV

Y tu fewn i 'r gydwybod, gan dyllu i'r tir caled
mae 'na alw sgrechlyd edifeiriol, mae 'na
grafangu am bresennol rhagorach. Rhagori oedd peidio.
Tyrd ataf ddiogyn. Oni chlywch chi gyhyrau dy wddf
yn tynnu ar yr awyr, er mwyn i'th ddwrn afaelyd.

Onid wyt ti'n adnabod yr ymwelydd annisgwyl,
a fu'n dy osgoi, a'i gywilydd yn ymguddio fel cydwybod.

Ddieithryn swil, oni chydnabyddi dy dwrio am guddfa
oer a ffres ac o'r golwg yn rhy fynych i iechyd?

CYDWYBOD EUOG
(YMWELYDD ANNISGWYL)

1

Gymaint o wynebau, a phob un yn wahanol,
yr holl aeliau plygedig yn fy nghario i'n dawel

dros wastadeddau estron i drigo arnynt
a'u mwynhau (neu beidio). Gymaint o lygaid llewyrchus

sy'n cau o'm mewn i gloi cyfrinachau
am feddyliau tra dyrchafedig er eu bod

yn derbyn ymosodiadau gan bobl
nad ydynt yn fodlon fod rhywun rywle

yn medru ymgyrraedd at yr arwyddion
y tu allan sy'n ymsiglo yn y gwynt gwamal

sy'n gwybod popeth am hyn o fyd ac yn symud,
yn bwyllog weithiau am ddifrifoldeb y bydysawd.

2

Hoff gan rywrai fynd o gwmpas
gan hau llofruddiaeth, fel petaent

yn hawlio awdurdod dros fraint
marwolaeth. Yr heddlu wedi cyrraedd,

breichiau yn ymdaflu dros euogrwydd
i gloddio beddau tywyll nad oes

hawl ganddynt i ymguddio ynddynt

mellt a tharanau melltith. Y saethu olaf. Pwy ŵyr?

Seiniau hysbysebu hen adleisiau ydynt
o fodernwyr a beicwyr y dianc ofer.

III

Bûm yn arwyddo ar goll yn y gwyll
gwael. Clywn o bell gerddoriaeth gobaith

gwyrdd. Ond clywn o'r tu mewn i'm calon
dangnefedd y gwybod. Mae yna rywbeth

cysurlon ynghylch y fuddugoliaeth honno.
Darganfod gwên, datguddio sŵn hudol
ar gefn alawon adnabod. Peidiwch â throi'ch

trwyn ar dipyn o ddod ymlaen yn y byd.
Dyfalwch – frenhines y gwyddbwyll – y werin

heb gastell – Hei! Gwilym, hei Hywel.
Newidiasant yr olwynion – ar gyfer y ras

crisial, – a ydych wedi sylwi ar yr
amrannau rhydd, a dogma o anwydwst?

Clywais ymhell dros fy mhen yma
– doedd dim byd imi dderbyn ateb.

Mae llu o'r heddlu'n gofyn i mi –
- mentrwch eich bet – dych chi'n mynd

i ymwthio i'r dyfroedd tawel a'r pellterau
di-neges, di-hud, di-hid – beth sy'n digwydd?

IV

Un cerdyn o'r  pac, hen bet.
Ble mae'r corff marw? Dyma strydoedd

Caerdydd drosodd eto.  Mae rhai ohonyn nhw
yn dioddef o gyfogedd, rhai eraill

mewn pla o flinder, yn ceisio
adfer eraill.  Ac edrychant o gwmpas, Ust!

Ond does dim ond hysbysebion am drysorau
neu'n waeth byth. Prydain yn rheoli'r tonnau,

ac yn eu cestyll – Cymry o'u hymdrechu
i fod yn deilwng o'r gorffennol brolgar,

sipiant yn araf deg, eu troi yn y llwnc
am iddynt grwydro'n bell dros anialwch

anhysbys mebyd. 'Yfwch' medd y sêr.
Cryna y tyrfaoedd. Maent wedi darganfod

bod. Trônt y sylltau drosodd. Rhônt hwy
rhwng eu dannedd. Ydynt: maent yn rhai go iawn.

Plygant eu trwynau i'r dadsychedu. Math
o fodolaeth yw – ffres fel afal yn hongian
yn waharddedig ar goeden, ychydig ar goll.

V

Daethant allan i'r goedwig felys,
y coed ffigysbren. Blaswyd y ffrwyth
newydd. Estynasant am waredigaeth annwyl;
ac O! Dim rhagor. Ond rhagor oedd.

Gŵr doeth, a guddiwyd gan wybodaeth
yn gwasgaru draenogiaid oddi tan
draed drudwen, wedi bod ar grwydr
mewn Ynys bellach, ond mwyach yn ôl.

Gwrandewch, y crwydryn twp. Hugan Goch Fach
ydyw, y ferch sbon sy'n crwydro
o garreg i garreg, gan droi pob un
o'r newydd gyda rhyfeddod a diolch.

Eto, mae ganddi farf. Cydiant ynddi
i'w smwddio'n ddoeth, gan gyfrif y blew
o un i un, gan deimlo'n falch wrth
ysgwyd i ffwrdd y canghennau amdani.

V

Mae'n galw o gefn y dosbarth, 'Yma!'
Gair ansathredig sy'n crwydro o gylch
yr ymennydd, gan wybod yn sicr
y daw allan yn y diwedd, er nad oes
diwedd. Edrycha'i synnwyr ar ei gilydd
mor hapus eu bod yn ôl drachefn
yn edrych ar wenau ffrindiau coll.
Nid yw am eistedd yn ormodol.

Wedi'r cerdded a hel dant y llew
does 'na ddim drewdod. Dim ond

mainc i eistedd, heb anadl am ychydig,
ac eto yn llyn diwaelod hapus.
Wnaiff hynny'r tro? Gwnaiff. Dim glaw.
Dim hunllefau gwlyb nac atalnodau.
Agorwyd y brigau, a thrwyddynt sbiwyd
ar balmentydd esmwyth yn ymestyn draw.

VI

I fyny i'r awyren, dilynodd y ferch fach
y sêr. Methwyd â machlud, a marwnadu
ar eu hôl. Roedd hi'n ymestyn am laeth
ambell seren i'w sugno. Ciciai reiliau'r crud.

Cnôi'r galon. Ac o'i hegni rhedai ffrwd
i gystadlu â'r Dydd. O!'r Dydd diderfyn
fel y glynwn wrthyt ti i drigo ynof
yn nerfus ond yn arfog ac yn hir hir.

VII

Swatia, llecha yn y coed a'u croes
a'u ysgyfaint gwyn llaw, a'r seddau i
oedi arnynt a sgyrsio'n gyfforddus ddigelwydd.

Mor sionc yw ambell eistedd ar y fainc fer.
Yma, byddwn yn cnoi afalau gyda'n gilydd:
mor ffres yw'r afalau ym Medi mwyn.

All y troad ar ôl troad ddim briwo'n
croen cryno. Nid daeargryn mohono.
Nid mwg annealladwy chwaith.

Nid oes dim a all ei ddenu ymaith.
Ni ŵyr y pererindota ofergoelus.
Does dim ond llwyaid o garcharu diddolur.

VII

Cefnder i ffenestr yw gorwedd ymhlith
blodau. Yr wyf yn iach eto, yn hel
hud. A thaenwyd gwledd ar y ford.

Dros y ford yn wir, a dannedd di-fin
y cŵn llechwrus dani, y mae mwynhad byd
arall cyn golchi'n cegau yn y bwced.

Yna, allan â ni i'w dasgu yn y nef
gyda phŵer dioddefaint yn flanced
amdanom. Gwely yw'r ardd-gefn heno.

Brasgama'r afonydd glân o'n deutu. Pwy all
ein cloffi nawr? Ef yw'r un sy'n peidio.
A pheidio sy'n rhoi i ni oll ddoethineb.

VIII

Codaf y dwylo i'r dail sy'n dwlu arnaf
i dyneru fy aeliau. Gwelaf yr anadlu'n
ageru eu gorau, ac arogli fy ngwefusau
pendefigaidd. Mae'n neis bod ar yr orsedd.

Mae'n neis hedfan dros bryderon a hwpo
fy nhafod allan. Emynau yw'r rheswm.
Fan yna maen nhw'n hedeg fel hadau.

Tonnant yn frodiadau dros drumiau,
a drymiau'n atseinio fel bachgen drwg ar flaen
yr orymdaith drwyngoch yn falch amdanom.

Ble mae'r llygaid? Ciciwyd hwy i gornel

cwmwl. Ac yn awr, byddant yn chwyddo
sgorio nes bod y gymdogaeth yn atsain.

X

I'r neuaddau brenhinol a'u lledrith, ymdeithia
hen drydan. Does dim glesni nad yw'n areithio
drwy'r bore. Daw fel bydwraig yn bodoli
er mwyn cawod o fabanod newydd sbon.

Dyma enedigaeth arall. Rwy'n eu casglu nhw
fel stampiau, fel gwybod mewn noson
haf. Wedyn, bydd y llusern yn agor
cri ac yn cyrlio o gwmpas clustiau parod.

Yn awr yr wyf yn noeth ac yn hwylio ar hyd
y gwifrau afradlon, yn negeseuon cân hud.
Hyd y sypiau manwl, gwn y gwir
am Wir, ac felly y mae'n gerddoriaeth Bwm! Bwm,

ddolurus o ddoleri yn sboncio drwy'r cylchoedd
fel syrcas sicr eithr un ordeiniedig.
Yn ei melan, ŵyn oeddem, darnau o dân
rhaeadrog. Ni byddwn byth yn sychedu mwy.

Ar y diwedd, roedd popeth mor undonog. Caed hyd yn oed
arholiadau ar risiau. Mae'r ŵyn bob amser yn neidio
fel pe bai rhywun wedi'i ddweud wrthynt. Ond
taw-wyd y diffyg trympedau. Bloeddiant Ei fawl.

Nid oes yn awr eiliad i sgrifennu yn y tywod
ar y llawr. Er gwaethaf y diffyg cyfarwyddyd,
bellach nid oes neb yn mynd ar goll. Cymerwn
oll ein lle heb gyfarwydd, heb sbectol, yn gyflym.

Gymaint o haf sydd. Mae'r gwefusau'n mwynhau
dweud amdano. A'r cäos, a hynny mewn bwceidiau
o oleuni. A'r hil o heulwen. A'r crwn yn llifo ddoe ar yfory.
A phopeth yn odl ac yn hidlo camre gwag.

IX

Collwyd y cymylau. Bûm yn meddwl tybed
ble'r oedd y rheini ar eu ceffylau gwynion.
Popeth yn achwyn. Gwallt ifanc yn wyn, heb fod
yn achwyn fy mod heb ei gribo, hwrê!

Ac eto, gwaed wedi colli'n briodol, heb ei sarnu.
Pam yr ydym yn syllu arno? Y mae Ef
ac yr ydym ninnau'n noeth heb gywilydd
nac euogrwydd na chregyn. Dyma wisg y wawr.

Ac yna, dyma ddrych i ni o'r diwedd,
ac ynddo ni welwn ddim ond Ef yn arolygu
yn Ei ddaioni. Heb yr un angau yn un man.
Ef a'i gwnaeth, yr Ef ym mhopeth. Heb ysgol.

Heb gyfrinach. Fe'n gwnaethpwyd i dystio am hyn.
Ond nid oes tystio i'w gael ychwaith erbyn hyn. Heb fad
yn un man am nad oes ei angen, heb
dröedigaethau, heb heb, heb hen, dim goleudai
popeth yn dal tir. Nid oes dim 'amgylch.'

X

Diolch i'r gaeaf ifanc eu bod yn medru'n tynnu
i adeiladu dynion eira ar y lawntiau disgwyliol.
Cofiodd i'r bore daenu colomennod o'r awyr.

Rwyt ti'n gwybod am yr addysg a gawsai'r
colomennod. Dysgent osgoi mynwentydd ystyfnig,

y rhai nad ydynt yn ffit i gynnwys colomennod

mewn unrhyw aroglau. Rhaid hedfan drwy'r porth cyfyng
i gynnwys ehangder, ehangder i'r Gweddill agos.
Ar ben y tŵr mae'r dŵr sy'n ffordd atebol.

Ond ar ben y tŵr erys y rhai i blygu
er mwyn llithro o'r braidd i mewn. Dewch;
saif Craig yr Oesoedd wrth y drws.

XI

Ar ei chefn mae'n cario bore parchedig,
heb wybod pwysau. Does dim problem.
Mae'n medru cludo bannau heb droi
blewyn. Mae'n eich boddi â bryniau gwyn.

Dylid disgwyl i blant ddringo draeniau
er mwyn cael cip ar gofleidio. Pa ots
am y llechi uchaf? Po uchaf y dringir,
agosaf y bo i weddïau sychedig a chynefin.

Maen nhw'n gartrefol yma a'r awyrgylch yn ddigon
tenau i nofio fel tonnau heb suddo. Yn hytrach,
maent yn cwnnu eu fiolinau er mwyn cynnau walts.

XII

Wrth ein rhoi at ein gilydd drachefn
am dro a threfnu pwt yn ddiau ar gyfer
harmoni y rhai a gyfiawnhawyd, wele
i ffwrdd â ni i chwerthin oherwydd y Gwaed.

Ei ewyllys Ef a wneir. Piliodd fy nghroen.
Tynnodd fy sgidiau a'm sanau a'm sŵn.

A mwyach gallwn gerdded – na, prancio
drwy'r drysau – dim drysau – dim dwylo.

Chwyrlïo, yna gorffwys – lolian ym mreichiau'r Mab.
Gorweddian mewn trydan triw, a lolian
mewn sancteiddhau a roddwyd i gardotyn,
y rhecsyn yma a ddysgwyd i beidio â chysgu.

Hir yw blynyddoedd di-gwsg, ond nid di-gwmni.
Mae f'anwylyd yn estyn Ei fraich
ac yn cofleidio'r afradlon hwn. Cerddodd
y nos drosof i, ond roedd gen i gymydog.

XIII

Gallaf hysbysebu'r miwsig hwn. Drwy'r awyr dew
mae'n cyrlio gyda fi. A chwsg yn fy nghwsg
di-gwsg-i nes y Dadeni rhagluniol.
Mae'n gwybod y ffordd oherwydd Ef yw'r Ffordd.

Glŷn glyn y ffordd yn y breichiau hyn, yr angen
i deithio; ond drwy groen ei ddannedd yn unig
ymgyfeiria tua'r affwys aneffeithol. Ac felly y glyn sy'n glynu.

Mae yna lwybr rhyngom, f'anwylyd;
fy nghyd-deithwraig ragluniedig, o dyle dwl
i gwm cam lle y tynnir o'u pwll goleuedig
a dreuliwyd gan draed y ffordd sydd rhyngom.

Dylid disgwyl i blant ddringo drwy'r draeniau
er mwyn cael cipolwg ar gofleidio. Pa ots
am y llechi uchaf? Po uchaf y dringir,
agosaf y bo i weddïau sychedig a chynefin.

Maen nhw'n gartrefol yma a'r awyrgylch yn ddigon

tenau a nofio fel tonnau heb suddo. Yn hytrach
maent yn cwnnu fiolinau er mwyn cynnau walts
a'u ffroenau yn udo'n llawen ar y noson hon.

XIV

Pobl ydynt, nid crafwyr-wyneb-yr-awyr.
Ac os daw coelcerth i'w hysu hwy, dyma'r
poenau diderfyn yn terfynu.

Mewn cymdogaeth gydnaws, dim ond
crafwyr-wyneb sy'n crafu wyneb angylion.
Porant eu dolydd diddiwedd.

'Yr Arglwydd yw.' Hwylia dros donnau
dirdynnol yn unig ateb. Drachefn mwy
o donnau! Diflannodd cloeon daear.

Bendramwnwgl ac yn danddaearol bendraphen
bob dydd llama ar fy ngwddf.
Mae'n gwybod rywfodd yng ngwaelod ei wybod

mai fi biau dau hanner pob eiliad. Mae'n eu cadw
nhw i frecwast gydag wy. Daeth y llieiniau
meddal cynhenid a lleddf i'm cynhesu.

XV

Nos da, glincian dannedd dodi. Clychau fyddwch chi
mwyach yng ngaeaf y gorfoledd. Sanctaidd fyddwch

mewn drycin. Bu'r lorri'n hel claddedigaeth
ac yn gosod gwyn gwych y calendr i hongian

arnom. Moethus yw'r organ sy'n lledaenu

dros gloffni dy gerdded. Offer cerdd

sy'n gorlenwi menig, os cais Rhagfyr
foddi'r dialog hapus sy'n ein clymu o hyd,

a cheisio cadwyno'r bythynnod â phoer.
Drwy'r storm hon, gŵyr y llofft mor ffrwydrol yw,

mor dywalltedig yw dilladach cynnes
ar gefn y rhai sanctaidd sy'n fwy na gwyn.

XVI

Ar y mat, mae'r holl deulu yn falch -
am y sbwriel hwn, am y gweddillion a daflwyd

gan yr ysbyty caredig. A dyma fi'n garedig ddihaeddiant
ynghladd arbrofol mewn perthynas glöedig

i hyn oll. Yr ydym yn ddyledus ddi-fwlch,
yn gyfan gwblddibynnol. Mewn cofiannau Cristnogion

casglaf dylwyth, ac ymuno â nhw mewn rhialtwch
chwil. Rholiaf mewn hoywder dialar.

Cannwyll llygad y muriau datodedig yw'r dadafiechyd
wyneb. Eisoes yr wyf yn bwhwman led y lle.

Trigaf mewn awelon o'r to. To yw fy sbri
a'm chwys. Cyffesaf nad yw toi yn ddim byd.

XXVII

Ymwaredwyd â'r corpws musgrell. Cerddaf
fel Branwen. Sipiaf iechyd a rhuddin

y llaeth a'r mêl. Fy neiet diwyd dwl.
Cerais blant. Cerais eu hegni clasurol yn tincial

ar goed Nadolig gyda'r asynnod swynol.
Mor ddiswildod yw telynau eu cegau coeg.

Yr wyf yn eu dal nhw wrth fy mynwes.
Ac yno! Ond mor ffrwythlon, mor gyflym

y dônt yn gariad yn cydorwedd
ar wefus y dolydd. A dwl yw eu deunydd

adnerthol. Marchoga eu cerbydau allan o'r
crafwyr-wyneb gwyredig i dincial yn nwydwyn.

Nid ofnaf y cyrn. Nid ofnaf y ffosydd chwaith,
er nad wyf yn gallu dianc rhag Dy gyflychwyr

deffröawl. Hoeliwyd hwy wrth Dy dalcen diniwed
ar ffurf perllan, a'r afalau wedi'u casglu er fy mwyn i.

Rhialtwch felly yw'r baneri i'n croesawu adref, i'r Eglwys
Gadeiriol o ddillad, gydag olew arnynt i ddisgleirio

yn y nos. Troes y nos yn fan cyfarfod o'r herwydd
i'r saer gerfio'i ddisgyblion mewn llonyddwch.

Ni raid brysio. Mae gan y teulu mawr
sy'n ein helpu gyda nôl y byd,

eraill sy'n rhoi ein dillad ar lein,
popeth yn gwlwm o gylch ein gyddfau gwyn.

XVIII

Yn y goedwig cofleidiwn ein gilydd.
Cyfrifwn – na, methu â chyfrif – y dyddiau
y buwyd yn casglu dolennau.

Roedd digon o le i genedlaethau.
Aeth diffeithwch i dre-din. Ar y ffordd
codwn ambell fawdheglwr i fod yn gwmni.

Ni allem ei basio. Yr oedd ei dafod yn hongian
fel dillad ar-y-lein. Taflodd ychydig o racs
ar y ffenest. Ac er y chwant i beidio, roedd ei gais yn fwy.

Nid mewn drws caeedig, ond yn y gwaed a lifai
dan ein crysau, allan tua'r ffordd aethom i ganfod
golygfeydd tywod yn sychu mewn ffroenau Cymreig.

XIX

Ond nid digon oedd dŵr. Roedd yn rhaid wrth waed
hefyd. Pan gariaf innau bwcedaid o'r gwaed hwn
gwn fod ei alwad o ymyl y ffordd wedi'i chlywed.

Mae sawr yn syrthio. Tuag i lawr yr eir i fyny
o'r sillau sylltau hyd y toi at y tai trai.
Mae'r bai bellach yn llenwi'r bae
â'u Haleliwia. Disgwyl mae pennau'r bryniau.

XX

Dwi wedi mynd yn unllygeidiog wedi clywed y llais

yn torri drwy f'ais yn wenfflam. Alla i ddim
mynydda mwyach. Dw i fel petawn i'n dringo gan wybod
fy maint ar Eferest yn fore, cyn hela'r eira i'r sbwriel.

Ces i ngeni mewn cornel gwelltog yn wynebu
Môr Coch a degau o filoedd o Eifftiaid.
Rhedais yn glinigol cyn gwybod sut oedd rhedeg
yn fathemategol. Hoffaswn amau,
ac amau cyn i'r we rwygo'n rhacs,
a hongian li-di-lol yn ei gilydd
nes troi'n belen gron i'r plentyn yn – i-si-hei-lwli -
honni ei bod yn fwy llon nag y gallai
siglo, wich-wach, tuch-tach, pili-
pala.

Gwesgais i mewn i led ei flodyn
bendramwnwgl fel crwtyn danjerus dauwynebog.
Cywrain a syml: caru bob eiliad
a'r llwyn heb ei losgi.

Nac oes. Does dim diwedd i ddechrau
i'r adain yna sy'n clatsio'r ffenest
– ffenest wedi gwneud llanast i'r adain
am rannu y rheini gyda'r cymydog,
a'u harllwys yn fflwff rywle rhwng
papurach caglog ac erfyn am feiro.

## XXI

Gadawyd fi
        ar bwys y sied,
ac roeddwn
        ar goll
y tu allan.

Dw i'n falch
i hawlio fod y storm
wedi chwythu'r to
i ffwrdd,
yn wir y tŷ ei hun.
A dyma ni yn Llanbadarn.
Mae honno'n
gyfarwydd â'm muriau.
Petalau tal
os tila ydyn nhw,
cadwyn
nas adwaenwn yno,
heb het, ac eto'n
parhau. Dau ohonof
wedi chwythu i ffwrdd.
Ond dim ots. Mae
lot o bobl
yn gallu gwneud hyn
mwy, a baban
at ei sêr.
Gefn nos
yn ynysig, mae gen i
gwmni mam-gu,
a thad, a mam
a brawd. Cawd
codi ar stiltiau
er mwyn canfod
pen y bryniau'n llawenhau.

## XXIII

Bwmp! Bwmp! Medd y gwasgedd ar fy mryst.
Gwich! Gwich! Medd yr ateb, yn betrus o astrus.

Ceir yr archwiliad ôl-farw. Ond beth sy'n gwir
ddiffinio anadlu? Ewch i mewn iddo, ac i'r awyr

agored. Mae'n gyson â nodau diffinio
y pla melyn. O'r gorau, feddyg, gwyddom

sut mae hi. Ond wyddom ni ddim eto beth yw.
Mae hi'n ymledol i berfedd y meddyg ei hunan-aberth

gydag afiechyd. 'Hoffwn i wybod beth
yw, fy hun. Mae gen i dri o blant.

Dw i ddim am iddyn nhw ymadael
â'u ci anwes yn drydydd. Does gen i ddim nid

am eich siecio. Dw i'n ildio.' Neidiwch
i'r baddon am awr, a mynnwch fiwsig ysgafn.

*  *  *

Faint amdani? Ar y llwyfan, cenir
alawon lawer. Teflir hetiau hyder,

ac yn y brithdir lliwiau yr eir
rhyngddynt a throstynt, deuir i gasgliad

cyfforddus. Diolch! O! Diolch. Dyma fi,
wythnos yn ôl yn dweud yn hyderus

'Dyna'r diwedd. Dyna'r cwbl a oedd gen i
i'w ddweud mewn cerdd', ac wele,

torri drws. Allai'r Pennaeth ddim
caniatáu rhagor. Ac efallai mai

darganfod yn honiadol ddamweiniol yw

ein bod ni ar ganol buddugoliaeth

ddihaeddiant ar waelod basged gyda
thwll yn y gwaelod heb nyrs genedigaeth.

XXIV

Ni thyngaf byth eto fod yr amhosibl
wedi blino. Mae'r anturiaeth yn methu

er ein lles. Gwyddom na ddylai fod
felly sibrwd sy'n eglurhaol. Bydd y galon

yn datguddio un peth. Bydd y galon
yn ymddangos ar y teledu. Foneddigion!

Gwrandewch, clywch y siffrwd! Dim ond
edrych ar eich croen, am funud. Credwch

fi, fe glywch ateb nad yw'r byd hwn
yn gallu dweud ond dyfalu cefn yr ogof.

* * *

'Beth ddigwyddodd i'r hen Gymru?' Esgyrn!
Dim ond darnau pigog o'r fath? Pentyrra

nhw ar y ford, ac archwilia nhw!
Agor yr argae! A rhuthra allan

dros Gantre'r Gwaelod. Bu llawer yn pyncio'n
delynegol amdano. Ond erioed, neb fel hyn.

Cwestiynau – ai ennill neu golli – cwestiwn yw
o gyfraith a threfn. Gwallgofddyn yw.

Allai hi ddim bod yn rhwydd. Mesurwch y
y pelfis, a'r pryfetach yn crwydro drwyddynt,

a'r cŵn acw'n cyfarth amdanat a'u geneuau
yn dylyfu ceg. Oes ots? Diflannodd posibilrwydd ots.
*                    *                    *

Mae'r dioddefwr yn pryderu ychydig
gan fod y tyllau yn llai nag y dylent fod

o olion cyffuriau a hunllefau'n faw.
Cnoc! Cura! Dim ymateb. I mewn

â ni. Dod o hyd i gwdyn bach.
Beth sydd wedi digwydd y tro hwn?

Ju-jitsu. Dim arfau eraill.
Dylai fod yn hawdd eu clirio.

Gwŷr llawn twf, ac un ferch fach
yn ei chwarae. Dim lle. Damwain, yn ddiau,

os oes y fath beth. Un! Dwy! Tair!
Dewiser a fynno. Mae Cymru'n gallu goddef y cwbl.

A chwardder. Llanwch eich esgidiau â miri
cerddorfa. Dych chi ddim yn sylweddoli

beth yw cost cynorthwyo anadl. Iechyd!
Foneddigion! I'r sylfaenwyr! I'r pererinion arloesol!

Twtiwch eich gwallt – y cefn a'r ochrau,
` hyd ddistawrwydd môr ar ôl oferedd storm.

Cyrhaeddwyd mewn pryd i ddal y bws –
'Rhew-wch.' Ac o flaen y gorchymyn i atal
y Twrch Trwyth, dyma hyn! Dyma sicrhau
yr holl luoedd o Loegr, fy mod yn siŵr o beidio â chanu.

Dyma agor fy ngheg am ei bod y tu hwnt
i baldaruo eto, yr hen wirionyn llipa.

Dw-i byth yn mynd i fentro eto honni
na wna-i ddim chwarae-sgrifennu byth eto.

XXV

Mae cornwyd yn y pen-ôl yn ymgasglu'n dîm
i ganu Hen Wlad  fy Nhadau – 'Anthem genedlaethol

fwyaf celwyddog y bydysawd.' Gall unrhyw un
ddweud hynny. Celwydd yw ym mhob gwlad,

gydag anrheg rydd ac am ddim dros ben yn ychwaneg
i ysbrydoli'r F.B.I. I'w restio – gyda 'cops' clwc y Taleithiau.

fel petaent yn cysgu yn eu gwely esgyrnog
tre-din, wedi tresmasu ac wedi dianc heb 'tail-light'

i'r dioddefyn heb-ond-mis-i-fyw gan y Synnis
a'r Shi-eits, rhy ifanc i gael eu cyhuddo, na'u tagu

ond yn ddigon ffit i gael eu bendithio,
yn y lôn goed a chyda'u Heneidiau hoff cytûn.

XXXI

Bu'n ailchwilio'r olion-prawf DNA

a phwyso sut yr oeddent yn adlewyrchu un o'r sectau esoterig
fel Dafydd a Jonathan, fel gwraig a'i gŵr
delfrydol, ac nid oedd angen tystiolaeth galed
i brofi hynny. Ceisid y cyfreithiwr i ategu hynny –
yr heddwch rhag concwest y canseri, y tangnefeddau cawr.

(Rwy'n eu casglu nhw; mae gen i dri math gwahanol
wedi'u gwasgu i bob cornel rhag ofn mynd
yn ormod o geiliog ar ben tomen.)

Gwyddid bod bod yr anweledig bob amser yn bresennol,
ac yn y fan yna yr oedd yr hyn a oedd yn fythol galed-feddal
ac yn angenrheidiol yno i wybod yr heddwch-go-iawn.

**JIM A JOHN**

Doedd dim brys. Roedd dau amser ganddynt i fyw.
Dau ŵr oeddent yn edrych ar yr afon. Dim
angen agor ceg oherwydd y cyd-flynyddoedd
ystrydebol wyn. Yma, Jim ar y naill ochr,
John ar y llall. Edrych ar eu gwaith.
Heb symud, trafeilient. Ond roeddent
wedi cyfarfod mewn cyd-ddeall gostyngedig.
Roedd hyn yn fath o weledigaeth neu arwydd,
yn fath o gwtsh a gwylied stŵr y byd
a'i gynffon rhwng ei aflau yn cilio, cilio o hyd.

Hyn yr oedd eu tadau wedi'i wneud o'u blaen
ar brynhawn Sul rhwng y cyrddau; ond hwy
a'i gwnâi ar hyd pob dydd. Yn ôl y syllent,
ond yn y dyfodol yr oedd math o ddiogelwch
a gawsant oblegid heddiw oedd y Pasg;
a gwyddent o ble yr oedd wedi dod,
ac yr oedd hyn yn bosibl, ac roeddent
mor falch, mor farddonol, gan barchu
cymaint amser a'r awr wachul hir mor dadol.

Roedd y sêr mor gysurus, fel ystafell wag. Roedd
yn well heb ddodrefn ond nhw, y ddau wedi disgyn
o fws, Jim a John, a'u dau wyneb yn sereneiddio
eu bwthyn o dân. Ar eu silffoedd, cyd-orweddent
wedi darganfod amynedd. Doedd yr eira mwyach
yfory ddim yn cronni – chwith, deheulaw – eto
fel pe bai wedi cael cinio dda – dwy ddeilen
rywsut wedi cwympo, ond yn dal yn las, ieuanc o las.
Edrychwch arnynt, deithiwr. Cadwch eich het: plygwch ben.

## YR HEN ŴR 'DIFFYG CWSG'

1

Mae yna ugain o  flynyddoedd bellach
er pan anghofiais sut yr oedd casglu'r Hen Ŵr.
Erbyn hyn, y mae'n rhyfel. A deuaf allan
ohono gyda'r gwaed yn diferu heibio i'm trwyn.

Dychmygaf  ddileu'r muriau, a cheisio meddwl
y ffordd o feddu ar naturioldeb 'y bod-ar-ddi-hun'
yn crwydro dros f'aeliau syrffededig. Mae yna eiriau.
Mae yna bob amser eiriau, yn carlamu ar hyd

llwybr y lleuad feddiannol. Pam gwnaethpwyd
lleuad? Beth yw ei phwrpas? Ai baban bach yw'r Hen Ŵr
yn ceisio'i wneud ei hun yn bwysig, drwy ymdeithio'n
fawreddog, y sipsi'n ceisio cael gwely rhad?

Ai wejen wrthodedig yn teimlo hunan-dosturi yw?
Ai ffordd o weithredu yn cogio bod injan nos
wedi torri i lawr (mawredd mawr). Diod yw
ar lwy, ond (wedi sarnu);  wedi dod i freichiau

amgylchol y mae; ond er fflyrtian mor ddiwyd,
gŵyr hi ei bod wedi colli allwedd ei swynau.
Crwydra'r hen ast yn ei blaen o awr i awr
i golledig awr, wedi boddi mewn tywyllwch.

II

Datgana, 'sticiodd peirianwaith yn awr'.
A gofiwch y dydd? Hwnnw a wnaeth
ddigon o sŵn, yn syml am iddo syrthio

i waelod ei selar selog mewn rhyw fath
o ddamwain fwriadol. Er mor wyliadwrus wyf,

ni allaf gael dim blas ar felystra fy nynolrwydd,
mae yna betalau marw ar ymylon y lonydd,
yn efelychu tylluanod realiti, nes rhewi.

Mewn caets ym mhen draw'r neuadd
mae yna sêr yn hongian eu trwynau
y tu hwnt i gyrraedd. Wedi blino ar flinder,
mor dagedig yw'r penliniau po nesaf

at y distawrwydd a'i ddrws clwc a'r gloc
ddiog yr ymdynnant. Llipa, llipa,
fy mrawd ymadawedig. Ofer yr yfaf dy chwerthin
ar gornel blincin ein blanced, a'i bwysau.

Cyfrifa fesurau'r waliau a'u gorwelion tlws.
Mae'r drws  allweddol ynghau. Safant ar dy wallt.
A dyfeisiant ryw fodd i ddatod adenydd
yr adar nad ydynt yn bod yn eu hymaith.

III

Newidiaf fy meddwl. Os oedd ysgolion
a'u grisiau yn eu cynnig eu hunain,
gwyddent eu bod wedi cyrraedd anialwch
heb ddatrys. Eisteddaf i fyny'n wallt wyllt

a'm llygaid gwael saethedig wedi'u treulio.
Ar edau mor frau, a'm dwylo'n eu hanwylo
mor daer, ble af mewn gwyll mor wallus?
` Byddar yw'r bwlch hwn. Adar yw'r odrwydd.

Newidiais fy meddwl. O'r diwedd amcanwyd
i'r distawrwydd fod yn ddefnyddiol.
Mae yna rywbeth i'w ddweud o blaid
cuddio'r ddaear â byddardod.

Mae'n fath o newid meddwl, a chydnabod,
absenoldeb hir. Mae gwefusau'n hwylusach
o gyfarfod â gwefusau di-ffws. Drych
yw i beidio â chredu heb brawf parchusrwydd.

Chwaraeer bod ar ddihun. Ond gormes
yw'r dyfnderoedd gwenwynllyd a dorrwyd.
Rhowch eich bywyd yn ôl yn y bocs. Dim
sy'n ei wylo. Ail-awch i'r ddaeargryn farwedig.

IV

Does dim arall. Dyma'r tymor arometig.
` Cyfyd colofnau mwg yn fyw yn eu hing.
Cerddetwr araf yw'r Hen Ŵr. Ac nid oes dianc.
Rhy rwydd yw'r masnachwyr yn eu nwyddau.

Chwaraewch, felly,  chwaraewch ar sgroliau'n adrodd
waliau adfeiliedig. Hanner-drowch ond wylofain
am ddiffyg deinameit. Cerwch ma's. Mae yna rai
sy'n medru huno'n ddidrafferth. Bradwyr er enghraifft.

Mae eraill yn rhuthro i darfu ar hanner ein bywyd.
Os dymunwch fod yn soffestigedig, ymostyngwch
i beidio â chwerthin am eich pen eich hun.
Cwsg-ias yw'r ffanatig sy'n dryllio cynnyrch y pryfyn.

Pluon yw'r Hen Ŵr a'i ddiffyg cwmni sut o edrych
arno. Yn y twll gwahadden sy'n blino'r dewin

byddwch yn trugarhau  tuag atoch eich hun
Prinder yw'r cartref i gerdd, ymddeolodd.

V

Yn epiffani'r diymadferthedd, daw'r clêr
i fwrw yn erbyn y ffenestri gan gynnal
gŵyl a gweiddi llysieuyn. O ganrif ddiwyneb
ymhlith y canghennau hyn cawsoch barhad.

Ar flaenau bysedd ehedydd, o gwmwl i gwmwl,
medrwch drawsnewid  briwedigrwydd y planed,
Mae'n gorohïan oblegid terasau o gyfrif
defaid, a'r iorwg wedi dringo'n wreiddiol.

Dydd i'th fronnau yw, dinas wen i dywod.
Ymestynnwyd ar liniau gwely segur, a dysgu
malurio trancedigrwydd ym mhen draw
stryd hirfaith hwyr. Jôc yw mewn brechdan.

Pwy sy'n cael budd ar gefn cynifer o driciau?
Dewiswyd yr oes anghywir i lawnsio deddfau ynghylch
parcio? Beddrod yn ddiog yw ar bromenâd  llwydlas.
Ar ôl chwech awr au, budd yw'r Hen Ŵr i gefn.

Yng nghefn gwlad yr Hen Ŵr, mae'r llwyth yn trigo,
fel siraff wedi trigo: nid etyb yr un llythyr oddi tan y tir.
Ni chwythir yr un trwyn, -tram, trim, trwm. Mae llygoden
yn chwilio am friwsionyn. Ni allaf ddweud mor ddyfal yw

cyn llithro i'r trap. Llygrwyd y pwll lilïod. Fraw
fab Dychryn, yn disgwyl i'r Bugail dynnu cnu
ei groen. Dim ond esgyrn ei fochgernau yr Hen Ŵr.
Mae'r hen Ŵr dan ei amrannau gyda'i hen gysgodion.

VI

Brawychwch wrth y profiad o ddyfod yn rhywbeth
oherwydd y gornel mae'r ddrychiolaeth Hen Ŵr
yn llercian. Bu'n blentyn yn cicio pêl. Ond
fe'i collwyd dros y wal (y bêl mae'n siŵr).  Ymadawyd ag Arthur

mewn ogof lle y triga'n Hen Ŵr. Trigo mewn cae nas
garddwyd, trigo a thrigo Ow! Mor galed, Hen Ŵr
ar y gwaelod, a'i adlewyrchiad yn codi drwy'r dyfroedd
a gorwedd yn ddianadl ar y lawnt fel Hen Ŵr.

Mae'r llanc hwn, a adwaen, wedi meistroli'r bau.
Bydd rhaid i'r wlad hon aros yn amddifad.
Ar y dymp, wedi llorio'r haul hefyd, er bod tameidiau
o fryniau wedi'u gwaredu. Daliwyd ei wallt yn y brwyn.

[Lluniwyd y gerdd hon ar ôl blynyddoedd o anhunedd. Ond ar ôl hyn o anhunedd, gwellwyd ar y diflastod hwn yn ddiweddar.
Credaf mai'r gwaith dyfal a hir a llwyddiannus o driniaethau am bentwr o anwylderau a barodd fy mod wedi ymwared â'r fath bla.]

MYFYRIO'R CADW

Cynnwys

I Dechrau (Genesis)

II Y Perthyn Mawr (Exodus)

III Ismael (Exodus)

IV Grym Cledd (Samuel)

V Sancteiddrwydd (Eliseus)

VI Caner (Salmau)

VII Doethineb (Diarhebion)

VIII Addoli'r Ddelw(Daniel)

IX Y Butain (Hosea)

X Dychwelyd I Fethlehem (Ruth)

XI Dioddefiadeau (Job)

XII Trysor Ahasferus (Esther)

XIII Yr Efengylau Synoptig (Mathew, Marc, Luc)

XIV Y Disgybl Hoff (Ioan)

XV Yr Eglwys Gynnar (Actau hyd y Thesaloniaid)

XVI Datguddiad

---

I DECHRAU (Genesis)

Achres i'r crud oedd Dechrau
i lunio rhagluniaeth.
Dychryn hefyd oedd Dechrau.
A hynny i ddyn oedd hanes, ei yrfa o'i wirfodd.
Achau hefyd i bechod - cadw drwy'r cadau:
gwerth wedi'r gwyrthiau.

Ystyr i ddarostwng

Adda a yrrai'r gwyddorau
a'i amaeth yma.
'Da oedd' gyda'r diweddau:
cwys yn baradwysaidd.

Dau bren, dau brawf -
y Gwerth a'r gwerthoedd
i gael Efa'n ymgeledd,
i gael o dan ei galon
artist cyfartal

i ddau eu pur addewid.
Pur fyddai ysigo pen.
'Allan!'
oedd rhan y rhain.

Afrad oedd Cain y llofrudd,
a lladd oedd ei waddol.
Dirywio a diraddio oedd
tynged hen Eden erbyn hyn, a hynny
o niwed a arweiniodd Noa

i ddilyn ei gynllun drwy Ddilyw
ac erchi
Arch
i achub ei achau:
enfys anferth ar groes i'r ynfyd.

Ewyllys Duw oedd amrywio
hunaniaeth anian
adlais cenedl yn edliw i'r cenhedloedd
oblegid angen datblygu
newidio drwy ryw raniad.

Amen bach
mewn
bwbach
oedd Babel.

Galwad newydd i'r golau
i Abram obry – Abram yn arwain yr Ebryw
yn arwain Abram
a chodi llaw yn ei awel.
Drwy hyn y dôi'r hanes am oesau i'r Meseia.

II Y PERTHYN MAWR (Exodus)
O groth yr ysgrythur
a llyfrau ynghudd ym mhridd y llafrwyn,
ac aroglau peryglon eu dilyw deiliaid,
daw fflam dân o berfedd perth i lunio perthyn
i'r canu yn y brigau er Canaan.

Selia'r holl foesoli: ein Ceidwad
yn amlhau rhai cadarn.
Daw i nyddu diwinyddiaeth
yn Iesu a ysodd
Moses.

Y Neil sydd am anelu
a'r gwaed ar draed am godi,
a llyffaint (a llau o'r teulu lleiaf):
Neidiant ar uffern y cornwydydd. Drwy ing lle dôi'r angau
yn aderyn ar draws creaduriaid.

Castiau o'r cenllysg locustiaid
i wall ofnadwy'r tywyllwch, o leiaf o du'r goleuo,
yn saint i fendithio'n swrth

i fynnu eneidiau
cyntafanedig.

III ISMAEL (Exodus)
Isel yw cyd-blant Moses, yn islif yw i Islam -
hyd ein dydd a'r ffydd wedi ffoi i'r rwbel di-Fab Arabaidd.
Isis di-waed yn osio bod dyn yn elyn i Israel
gael ei gwaelu a'i rwbiodd oddi ar
Arabia.

Bu'r hil hon i Abraham
yn ei arwain i lawn garu Isaac yn angerddol iasol.
(Isaac a fendithiodd Esau.)
Ond mynnai Duw ei lywio
i dreial hir ei drawo.

Y Puraf uwch a ddarparodd
aberth dragwyddol ei obaith.
I'r byd a arbedodd y Llyw
drwy ddisgwyliad y llanc; a'i dranc a drodd
yn Iawn i bawb-ddigonol, ar Groes drugarog Grist.

IV GRYM CLEDD (Samuel)

Mae yna Oleiath, a myn oleuo
un i'w ddwyfol gynnau gan gledd ei gredo heddiw.
I'r un bach cerrig yn unig sy'n ddigon:
i eraill, rhaid wrth herio -
'Ai ci i tithau yw cawr?

Ac eto, ryw getyn ymlaen y daw'r ymlâdd.
Daw'r llawr hwn ato a llorio. Sylwer yma,
y mae Caersalem yn estyn pen y Philistiaid -
i bwysleisio'r bas leisiau. A Saul a'i gledd
yn eiddigus (heb brofi eiliad o hedd.).

V SANCTEIDDRWYDD (Eliseus)

Sanct, Sanct sy i ieuenctid
i ganu am byth Ei ogoniant: 'erglyw,
ganed yr Arglwydd.' Y Gwir drwy Iesu a gaed
a Duw yn llenwi ein daear
â'i Winllan yn fythol annwyl.

Gwas yr Iôr a gais iro i'r Duw
a fyn bob dial: 'Deuwch bob un
yn dawel i'r Rhyfedd' sy'n rhedeg o'r afon
a gelir i'r holl wrthgilio
Ei alwad drosom 'Aleliwia.'

VI CANER (Salmau)
Da i bob dyn yw cyd-dynnu â Duw
a thaenu dawn Ei ddoethineb.
Ei blan Ef wrth blannu ffroth ger dŵr
sy'n rhoi ffrwythau o Wir-mor-wych-o-
Gariad.

Dyrchaif yn hwnnw dy erchi,
ei Duw ar ein daear, y Duw pan sefi diau.
Duw nid oes, medd yr ynfyd yn anfydus.
Iôr, pwy gaiff aros yn fab yn dy babell?

Y Graig ynghanol gras.

Ernes fy Mugail sydd arnaf
gerllaw y dyfroedd tawel.

Mae Ef yr Arglwydd yn nefol.
Dduw, mae Dy lef yn ddawns.

Yn Dy erbyn di, dydi, diau
y des i bechu, - dyn halogedig i lygadu: O! Dduw aberthau i'r ddaear
yw y gweli y galon. Hawddgar yw Dy heddgan.
Y wennol a gaiff nyth yno
a lluoedd a fydd yn llawen.

Llenwch y cynteddau â'u llawenydd
nes i'r Arglwydd deyrnasu.
Nid i ni, nid i ni, y bo'r newydd.
Cenwch yn llafar y caniad;
'da yw ein Duw'.

Ei galon yn ôl i'r gwaelod:
tyr yno mewn tosturi
a llefain o'i galon mewn llafur.
Yno mewn anadl, molianned.

VII DOETHINEB (Diarhebion)

Y gwyn a gyfyd genedl.
Gwir y wraig
sy'n goron
i'r gŵr hwn a gwaraidd

ar y werthyd y rhoddir ei gwerthoedd.

Yn awr hi a gwyd liw nos,
i roi cysur i un yn ei wely -
ar gyfer mwynhad i gyfaill-
Dyd anwyldeb mebyd,
ar ei gôl drwy'r gwely.

VIII ADDOLI'R DDELW (Daniel)
Ble mae Daniel a'r delwau?
Gweled y maent y golau,
ac mae'r brenin yn cydnabod rhinwedd.
Yno yn y nos dyna'n aros mae Daniel:
y llew, Belasasar, a'r lleill:

rhythir ar yr ysgrythurau
a'u cyffes yno'n caffael
â'i eisieau
am y Meseia,
yn deg yn ei wythdegau.

IX Y BUTAIN (Hosea)
Bwyd i Seion oedd byd Hosea.
Dyma'i orchymyn a dameg.
Od oedd ei briodas yn faswedd hirfaith o foesau
yn chwalu drwy ddychwelyd
i seintwar wâr eu cariad.

Cariad rhad oedd cariad yr Iôn -

rhad hefyd oedd afradu – am addoli  Mamon
a'i ddelwau. Yma roedd, meddai Gomer. I briodas
adiodd bridwerth. Dyna arfer godineb. Bydd putain Baal
yn Effraim yn offrymu, ac Iesu'n ateb ei eisiau.

X  DYCHWELYD I FETHLEHEM (Ruth)
Fe fynnodd Naomi fyned
yn ôl i'r henwlad yn awr.
Marwodd yn annhymorol
ei meibion yn ystod eu mebyd.
Chwerwodd ffrwyth ei chariad,

Ruth? Ei chais a rithiodd o'i blaen,
a heblaw hynny fe fynnodd benderfynu
roi rhyw aros serchog i arall:
'Os ei di, fe af i hefyd.
Dy Dduw di fydd fy Nuw i nawr.'

Bu ei gwaith gyda Boas, perchen y tir.
Parchus her Naomi oedd hyn
i'r esgid ddiosgi. Bu wrth draed Boas.
Siars i'w galon oedd serch, ac ach a fu'n bob achos
yn y gadwyn a roes i'r byd Geidwad.

XI DIODDEFIADAU (Job)
Yn Us roedd gwas i Iesu'n byw
a gwyn oedd y byd.
Heblaw ei blant, a'i gyfoeth
oll yn gyfan. Duw a da oedd daear.

Satan yn swta a ddaeth i guro'i ddôr,
a dweud mai hunan oedd ei dâl.
Duw a ganiataodd i'r diawl

daro ar eiddo Job.

Ond Job a oedd yn dal
mai da o hyd oedd Duw.
Iddo gwiw oedd addef -
gwas o hyd oedd y gŵr.

'Y byd yn unig yw byw,'
medd Satan: i mi, 'addoli byth ni ddaliai.'
Fe gafodd ef ei gyfan ei nodi'n llwyr
gan gornwydydd. Mae'n gwaelu mwy mewn galar.

A hiraeth am gael ei farw wnâi Job gan y diawl.
Yno Eliffas a fynnodd
mai cosb oedd drygioni mwyach; a cherydd i Job
am chwerwi. Y gŵr a erfyniai drugaredd.

Ildiodd o'r diwedd Bildad a mynnodd ef mai einioes
ei blant bach heblaw drwg tragwyddol ei dras
a gyfrifai ef o leiaf
y da (neu'r bydan) oedd yn dioddef.

Methai wedyn Naamathiad -
mai mater awtomatig
i Dduw roi i ddyn lawenydd o hyd eleni,
'a helaeth ei hwyliau, a heulog.'

Bedair gwaith y bu areithio
felly. Ond fe allai, o'r diwedd, Job godi, fawl
i'w Geidwad, a'i foliant -
yn eiriau ym mhob yn fawredd.

A Duw y tu hwnt i'r deall;

'A Hwnnw y tu hwnt i'r hunan.
A llwch yw fy llun, i uno
â chariad fy enaid. Yno.

XII TRYSOR AHASFERUS (Esther)

Tast y brenin ar ôl Fasti
ddwgyd rhai o'i swyddogion
i ddethol y decaf ei golwg
gerbron y brenin yn rhiniol.

Ond bu ef yn bihafio'n
esgeulus, heb ei gweled,
yn hir iawn iawn oherwydd gwaith
ac nid am ei bod yn gethin.

Ar hast mentrodd Esther ato
heddiw heb ddim gwahoddiad,
a'r brenin yn estyn at Esther
i weled y deyrnwialen.

I'w derbyn yn erbyn pob arbed.
Ac eiddo oedd priodas iddynt.
Ni ddeuai ond maddeuant,
ei chariad wedi'i chywiro.

Yn ôl yr arferiad ni wadai
yr un hanner o'r frenhiniaeth.
Gwrthun fuasai gwrthod
llai. Roedd y ddau mor llawen.

Amnaid a wnest – a chondemniodd
hanes, a chanodd dyfodol fy nghenedl.

Ofer i'n cariad yw 'yfed
iechyd' i gydnabod ei hachau.

A dydd o anrhydedd
sydd i fod yn sail.
Mae un yn haeddu'n gyhoeddus
ei drin ef yn frenhinol.

XIII YR EFENGYLAU SYNOPTIG (Mathew, Marc, Luc)

Y DNA, dyna oedd.
Yn y groth, yr oedd gras
a Ioseff yn llunio Iesu.
Ildiwr i dragwyddoldeb
ar ddaear yr Addewid.

Rhoddwyd i ddiderfyn breiddiau
o angylion yr ing olaf
am yr Un (yn eu mannau)
y sêr oll ysydd
harddaf uwch dinas Dafydd.

Dyma ar goll yn ei Demel
ac yno ar lan Iorddonen
Un
annwyl a fodlonodd
y Tad yn arfaeth y tŷ.

Ond...
Roedd bob amser ondio. Estyn gras ac ymostwng
i iau bob amser am Ioan, yn ddi-ffael ac yn gwbl ddi-ffws
a chael iacháu yn Dduw
i'r holl ddaear.

*      *     *

I deulu Pedr, a'i dylwyth
y daeth ail fywyd i deithio.
Y gwas mewn gras gan Grist,
Uwch un yn gorchfygu duwch daear.

I hyn y'i danfonwyd,
a'i wthio gan Awen i bregethau.
Erlid 'welodd y claf o'i barlys;
melys oedd gweld porthi'r miloedd
rhodio ar y môr i'r Iôr a rôi;
(awdurdod gan y Duwdod ydoedd).

A dyma'r heuwr mewn dameg
(ac imi dilynodd Dameg);
burum i bawb i buro.
I garu, i'r gŵr o Samaria

bu'n ymyrryd. Ac edliw y mab afradlon;
hwde y mwstard a'i hadau.

*          *          *

Hanfodol gan y gwynfydau
yw gweddi drwyddynt a guddiodd,
mynyddoedd o amyneddau
Gŵr y stormydd a'm gyrrodd
i  ffydd ar lin dros y ffin.

*          *          *

I roi o Gesarea Iesu ar gefn
asyn i'w ogof yn marchogaeth
i lu yn Jerwsalem Yn eiliad y Swper
Olaf, Duw a arfaethai i'r duwch
y diwedd; y bedd i'r byd -

ond bod na Ail Ddyfodiad.

Chwysai waed o'm hachos i
a minnau yn Gethsemane.
Pylodd cwestiwn Peilat:
'Pwy?' Oes cwestiwn mwy o'r mant?'
Gwir nad oes mwy o'r gwarant.
Y lleidr oedd yno'n llam
ac olaf o dystiolaeth.
Enaid Duw at Dduw yno
a hedodd yn bêr ar un adain.

Caf ddod nawr i Atgyfodiad -
y Graig wedi'r gwragedd,
a lluoedd o Iddewon, a llawer
a hidlwyd o blith y cenhedloedd.

Wedyn caf Ailddyfodiad.

XIV Y DISGYBL HOFF (Ioan)
Yr ias o gael hoffter Iesu!
Nesaf wrth ei bryd at Iesu!
Ef oedd yr olaf hefyd:
cyn ei fedd, anrhydeddwyd
myned o dri i Gethsemane
i rannu gyda'r Annwyl
wylad yr oriau olaf
a nodi y cyfnewidiad.

Yn glod mae e'n ei nodi -
y gŵr sy'n troi dŵr yn dwym,
ac estyn ger llyn Bethesda
iechyd i'r dyn, ac achos
i'r un yno a'i rhannai'n

ddiolch am aros ar ddaear
yn iachus, nwyfus, nefol.

XV YR EGLWYS GYNNAR (Actau, Rhufeiniaid, Corinthiaid, Galatiaid, Effesiaid, Thesoloniaid)

Ffiniau oedd ar y 'Gorffennwyd':
wedi atgyfodi i fyd -
i addewid ar y ddaear.
Caed Ysbryd Glân i rannu
Pentecost yn dostur.

Talai'r apostolion
fawl am fod yn fyw
i Dduw, achos yr holl ddaear.

* * *

Yntau Steffan oedd gyntaf
a'i och i hyn o achos.
Gwyliai Saul yno a gwelodd,
(wedi'i labyddio ydoedd
ar ei liniau), a arlynwyd.
Yna, dymchwelwyd nwydau
Saul; roedd Paul mwy yn pylu.
Torrwyd ei sêl. Dychwelodd
ei Dduw i'r dyn a erlynodd.

* * *

Hyd y cenhedloedd fe floeddiodd
yn awr, a Crist yn ei yrru
caniadau'n llond y Cenhadon:
yn Athen cyrhaeddodd eithaf
y gwareiddiad a geryddodd.

Y duw nas adwaenent -
y dynion a garai daenu

anwybodaeth yn eu bydoedd,
yr ysgrythur a gurai.

Yn arwrol garcharor
a'i ryfel yn parhau yn Rhufain
yn heddwch iddi heddiw.
Ar ei liniau erlyniodd
y rhai a'i cadwai mewn cadwyn.

Hwy dan ras, dan yr iau,
yn gadarn o dan Geidwad
a'u curai hwy mewn Cariad
yn rhydd, ac a fyddai'n
erfyn am gael arfau

di-ladd, heb ddim dileu.
Nid dig na damnedigaeth
i fyd a fu dan farn;
nid oes mwy yn awr
yn llon yn yr un digonol.
Carwyd ni, ni'n concwerwyd -
yn glod i'r Ysbryd Glân.

XVI DATGUDDIAD
Nef a geir, o fyfyrio nefoedd;
'Iawn' a feddylia'n llawnach.
Gwedd ar y cwbl ydyw'r 'Datguddiad'.
O'r sêr a'u Iôr y daw pleserau
a'u ffydd a grewyd gan ffin -
yn derfyn lle y diflanna'r holl dir.

**DYDDIADUR MIS**

Mae dyddiadur yn cynnwys pob math o ddigwyddiadau. Mewn clefyd a gafwyd yn ystod y mis diwethaf, atgofion a myfyrdod am y gorffennol gan mwyaf a aeth â'm bryd. Mae hyd yn oed llefain yn medru bod yn rhan o ddyddiadur.

I

(Gorffennaf 2017)

Carwn adrodd un rhan o hanes fy 'llefain' diwethaf. Bûm i'n dioddef am fisoedd oherwydd salwch go ddifrifol am gyfnod. Roedd canser wedi crwydro i sawl rhan o'm corff. Yr oeddwn wedi cael triniaeth ofalus gan y meddyg. Gwyddwn y byddai fy ffrindiau yn y Capel Efengylaidd yn gweddïo amdanaf. Ond dyma glywed bod eraill yn gwneud hynny hefyd.

Pan fyddaf yn gweddïo dros bobl eraill, ni byddaf yn llefain fel arfer o gwbl. Ond yr oedd derbyn yr arwyddion o gariad hyn yn fath o ddrych o gariad Duw. Fe'm gwnaeth yn fwy ymwybodol o anwyldeb Iesu a phresenoldeb Iesu, a'r ffaith iddo ddod i farw drosom ni. Mae Ef yn ein cofleidio ni yn Ei ddioddefaint. Ac wylais yn hidl oherwydd y gymdeithas sydd hefyd yn ein hamgylchynu ni ac yn ein cynnal yn Ei freichiau. Arwydd oedd i gyfanrwydd yr Efengyl, brodyr i'n gilydd bob un.

II

(Gorffennaf)

Darllen y bûm heddiw gopi o ddarlith yng nghofnodion y 'Westminster Conference' gan fy nghefnder Geoff Thomas, ac awgrymu yr oedd Geoff yn y fan yna fod cyfnod y cewri fel Luther, Calfin, Machen, John Owen, ac eraill wedi dirwyn i ben gyda Martyn Lloyd-Jones. Ac y mae hyn yn wir, efallai. Bellach mae'r amlder o lyfrau, rhwyddineb rhad teithio, ymlaen i ledaeniad y We a'r cyfrifaduron, a defnydd o radio a theledu mor helaeth nes bod math o drefn newydd wedi ymsefydlu y mae Geoff yn gynrychiolydd teg ohono. Mae Geoff yn adnabod pawb. Mae ef yn teithio'r byd, yn fynych iawn yn America, yn Cenia, yn Awstralia, Ffindir ac yn y blaen. Mae yna batrwm wedi'i ymffurfio ar y We, ac mewn ffyrdd eraill sy'n dibynnu ar gydberthynas gwahanol. Ond y mae'r drefn newydd mor effeithiol, yn wir yn fwy effeithiol efallai.

Bwriadwyd yr Eglwys i fod yn gymdeithas lle y mae pobl yn ymestyn at ei gilydd fel y gwnâi Pedr, Iago, Ioan, ac eraill o'r disgyblion. Teulu ydym ni ar y ddaear oherwydd bod yna deulu yn y nef. Effesiaid 3 'Boed i chwi sydd a chariad yn wreiddyn a sylfaen eich bywyd'...

III

(Gorffennaf)

Mae'r gair llafar, pan ddefnyddir ef yn ofalus ac yn olau yn gallu bod yn brydferth. Ond oherwydd tipyn o drafferth gyda 'nghefn, byddaf i yn treulio'r rhan fwyaf o'm bywyd ar fy ngwely. Ac o'm deutu, dyma'r llyfrau, fy ffrindiau annwyl. Does dim rhaid ond estyn fy llaw, ac y mae holl drysor daear a nef yn fy llaw. Gallaf gyrraedd pellterau'r ddaear ac entrychion y nefoedd.

Mae'r llyfr hwn a hwn yn frawd dihafal. A dyma fi heddiw yn estyn llaw. Gwn y byddaf yn cwrdd â'r awdur a'm cyfaill, Gwyn Davies, y Sul nesaf. Ond mae angen arnaf glywed ei lais yn fy

mhen yn  awr. Ac wele, dyma'i lyfr gorau oll – *Iachawdwriaeth Gymaint* yn fy llaw, er bod ei lyfr ar Cyfamod yn gystadleuydd cynnes. A'r pynciau hyn yn rholio gerbron fy llygaid – Cyngor Tri yn Un, Etholiad gwaith Gras, yr Iawn, Rhagor am Farwolaeth Crist, Galwedigaeth Effeithiol, Ailenedigaeth Effeithiol, Ailenedigaeth a Thröedigaeth, Cyfiawnhad, Sancteiddhad, Breintiau'r Iachawdwriaeth, Gogoneddiad. Rwy'n gallu clywed ei lais, yn awr wrth fy ochr, a chynhyrfiad ei galon.

Yr wyf wedi treulio llawer o amser yng nghwmni Gwyn, a'i gael yn arweinydd diogel a difyr. Trof yn awr at enw arall o blith ei lyfrau. Beth sy'n well nag *un* llyfr? Hawdd! Dau.

IV

(Gorffennaf))

Mae pawb yn meddwl am farwolaeth ryw ben. Ac y mae llawer, pan ddaw ei chysgod ar draws y meddwl, yn tybied mai gorau po gyntaf y myfyriwn am rywbeth arall.

Ond camsynied yw hynny. Cyfaill yw marwolaeth o'i hadnabod yn iawn. Trowch at Ffilipiaid 1: 21: 'Oherwydd, i mi, Crist yw byw, ac elw yw marw.'

Bu farw ein Harglwydd. Ond cododd yr Iesu. 'Os cymodwyd ni â Duw trwy farwolaeth ei Fab pan oeddem yn elynion, y mae'n sicrach fyth, ar ôl ein cymodi, y cawn ein hachub trwy ei fywyd.' Ioan 3:14 'Yr ydym yn gwybod ein bod wedi croesi o farwolaeth i fywyd am ein bod yn caru ein cyd-aelodau,' Rhufeiniaid 5: 10, 'Oherwydd os cymodwyd ni â Duw drwy farwolaeth ei Fab pan oeddem yn elynion, y mae'n sicrach fyth, wedi ein cymodi, y cawn ein hachub trwy ei fywyd.'

V

(Gorffennaf)

Mae Cristion yn  fod ysbrydol, ac mae hynny'n golygu iddo godi i lefel uwch na'r naturiol.

Erioed o Genesis ymlaen, bu'n arfer bychanu cyfeiriadau at Dduw real a chanddo allu i lywodraethu drosom, ac yn llai byth i farw drosom. Dyna gywair bwganol.

Mae gennyf gyfeillion yr wyf yn eu parchu nid yn unig oherwydd anwyldeb eu cymeriad, eithr hefyd oherwydd eu gallu meddwl, eu gwybodaeth, a'u safbwyntiau cymdeithasol a gwleidyddol. Ond teimlant reidrwydd i gymryd yn ganiataol fod yn rhaid ystyried pethau diweddol y tu hwnt i bob callineb.

Ond y mae gwead goruwchnaturiol yn byrlymu drwy wythiennau credinwyr. Y tu mewn i fodolaeth naturiol y Cristion fu difa Iesu (1.Corinthiaid 6:19). Ef yw'r arwydd yr ydym yn tyfu ynddo. (Ioan 15: 5) Does dim angen ofni dyn. Dyna'r sefyllfa normal i Gristion.

VI

(Gorffennaf)

Mae Cristnogaeth i fod yn fwynhad.

Ar ddechrau Efengyl Ioan, mae'r Cristion eisoes wedi profi llawenydd a Gras Duw. I'r dyn naturiol mae'r credinwyr ffyddlon, sydd oherwydd eu cyfyngder yn y ddeddf, yn golygu ymddygiad caeth a diflas.

Mewn gwirionedd, derbyniodd eisoes orfoledd yr Arglwydd. Mae'n mwynhau'r Cread. All e ddim ceisio'r fath hyfrydwch sydd wedi meddiannu'r galon. Mae'r Ysgrythur yn esbonio beth a ddigwyddodd iddo. Nid profiad cwta yw. Mae Cristion yn un ag Abraham ac Isaac, Moses a Dafydd, oherwydd iddo gael ei atgenhedlu. Mae ganddo fywyd felly – ar un lefel o leiaf: Ioan 7: 39. Yn wir, mae bywyd Iesu yn preswylio o'i fewn: mae'n un â Duw.

VII

(Gorffennaf)

Yr wyf yn mwynhau henaint. Dyma, ar ryw olwg, rai o ddyddiau gorau fy mywyd. Mae'n wir bod heneiddio wedi dod â salwch. Ond mae Salm 71 yn datgan pam y mae'r dyddiau hyn yn gallu bod mor freintiedig, oherwydd y mae'r gorwyrion newydd yn rhag-gywain amseroedd i ymhyfrydu ynddyn nhw: 'O Dduw, dysga fi o'm hieuenctid, ac yr wyf yn dod i gyhoeddi dy ryfeddodau'.

Fel y gellir ei ddychmygu, mae gan *Diarhebion* gynghorion ystyriol i ddweud beth a welwyd wrth gasglu profiad. Mae'r bennod gyntaf yn enwog am yr hyn sy'n bosibl wrth gwrs. 'Ofn yr Arglwydd yw dechrau gwybodaeth, ond y mae ffyliaid yn diystyru doethineb a disgyblaeth. Fy mab gwrando ar addysg dy dad, paid â gwrthod cyfarwyddyd dy fam.' (Diar. 1: 7-8); 'A hyn a fydd yn y dyddiau olaf, medd Duw, tywalltaf o'm Hysbryd ar bawb, a bydd eich meibion a'ch merched yn proffwydo, bydd eich gwŷr ifainc yn cael gweledigaethau, a'ch hynafgwyr yn gweld breuddwydion. (Act. 2: 17).

VIII

(Gorffennaf)

Mae'r gŵr a'r wraig ifainc yn gallu byw bywyd delfrydol os yw'r ddau'n Gristnogion. Gyda'r ffydd, y mae yna fath o ddwy briodas yn cryfhau'i gilydd yr un pryd. Dyma Ras Cyffredinol a Gras Arbennig yn cyd-ddawnsio, fel sydd pan fydd Duw yn cyd-ddawnsio gyda nhw, a phawb o'u hamgylch yn cyd-lawenhau ac yn well o'r herwydd. Y maent yn greadigaeth newydd. Oblegid fy ngalwedigaeth naturiol fel prydydd, yr wyf wedi canfod dros y blynyddoedd mai'r ddau brif bwnc wedi ymuno â'i gilydd i ddarparu dau darlun pennaf fy muchedd. Byddwn yn gweddïo'n ddeuawd bob nos, a Duw yn gwneud y cwbl drosom, a brenin Tangnefedd yn bendithio'r harddwch di-dor sydd rhyngom.

Oblegid fy ngalwedigaeth naturiol fel prydydd, yr wyf wedi canfod dros y blynyddoedd

mai'r ddau brif bwnc wedi ymuno â gilydd i ddarparu dau destun pennaf ei hymrwymiad. Byddwn yn gweddïo'n ddeuawd bob nos. A Duw sy'n gwneud y cwbl drosom, a brenin Tangnefedd yn gwneud y cwbl drosom.

Cofiwn mai arwyddocaol yn hanes Iesu'i hun oedd y briodas yng Nghana Galilea (Ioan 2: 2-2). Felly,: 'Bydded priodas mewn parch gan bawb, a'r gwely yn ddihalog (Heb. 13:4). Ac eto, 'Yn yr un modd, chwi wŷr, byddwch yn ystyriol yn eich bywyd priodasol; rhowch y parch dyladwy i'r wraig, gan mai hi yw'r llestr gwannaf, a chan ein bod yn gydetifeddion y groes sy'n rhoi bywyd (1 Pedr 3:7 ).

Yn ystod fy nghyfnod diweddar o salwch, buom ni'n dau yn cyd-neilltuo Ei ewyllys ef. Ac yr oedd modd i ni, yn ein gwelyau gwahân gynnal y cyswllt.

IX

(Gorffennaf)

Yr un modd. Yr oeddwn yn edrych ymlaen at gwrdd â'r saint. Hiraethwn am weld pawb yn y capel. Ac ar un adeg, yr oeddwn mor wan, a hynny'n hir, fel yr oeddem ein dau, Beti a fi, yn tybied efallai na ddown i'n ôl byth mwy at ein brodyr a chwiorydd annwyl i'r 'arferiad cymdeithasol' ac i gyd-gymuno: 'Un corff sydd, ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw'r gobaith sy'n ymhlyg bawb. Yr Hwn sydd goruwch pawb, a thrwy bawb, ac ym mhawb, ac ym mhawb, ac ym mhawb.' (Effes.4: 4:5). Clywais lawer tro Dr. Martyn Lloyd-Jones, yn pregethu'n daer ar wir Undod, yn ystod yr ugeinfed ganrif gyda'r Mudiad Eciwmenaidd, mor ddi-hid ynghylch cynnwys y ffydd a'r ddysgeidiaeth, a chan ddodi pwyslais mor benderfynol ar undod allanol. Cymysgwyd athrawiaethau, gwadwyd ganddynt y gwir Undeb yn yr Ysgrythur. Yn wir, collwyd y Beibl hwn sy'n gyd-enwadol arnom ni, fel Gair Duw fel y Gwir Undeb sydd yn y Mab a wnaethpwyd yn gnawd ac a drigodd yn ein plith, wedi ymostwng (o raid) er mwyn ein codi: 'Yr un a ddisgynnodd yw'r un a esgynnodd hefyd ymhell uwch na'r nefoedd i gyd i lenwi'r holl greadigaeth: (Effes. 4: 10).

X

(Gorffennaf)

Dyma'r wythnos gyntaf i'r *Cymro* beidio â chael ei gyhoeddi. Darfu'r *Faner* ers blynyddoedd bellach. Ac nid oes gan y genedl newyddiadur Cymraeg mwyach.

Ond rhan fechan yw hyn o argyfwng cyhoeddi yng Nghymru. Mae'n mynd yn fwyfwy anodd i Gymry Cymraeg gyhoeddi'u gwaith, yn arbennig yn y maes academaidd. Prin yw'r llyfrau hysbys sy'n astudio llenyddiaeth – y gweithiau am hanes llenyddiaeth, llenyddiaeth gyfoes, heb sôn am bynciau eraill fel gwyddoniaeth, a cherddoriaeth, masnach, amaethyddiaeth er enghraifft, fel mewn cyfres megis 'Pobun' a'r gyfres 'Y Brifysgol a'r Werin', neu 'Ysgrifau Beirniadol', 'Y

Genhinen', Cyfres yr Academi Gymraeg (fel gynt 'Y Storm Gyntaf' gan Islwyn a.y.b.), 'Llên Cymru', ' Barddas', 'Bwletin y Bwrdd Celtaidd'. Ni wn a yw Gwasg y Brifysgol yn weithredol mwyach. Mae llenyddiaeth ysgafn yn cael nawdd a hysbysrwydd drwy ddiwydrwydd a dyfnder y ganmoliaeth gan y Cyngor Llyfrau, ynghyd ag ambell gyfrol fwy sylweddol (ond prin iawn erbyn hyn) er gwaetha'r

Ysgafnder ymddangosiadol. A'r cwestiwn mawr sy'n codi yw 'Beth a wnawn ni erbyn hyn?'

Gwastraff ar amser yw'r cynadleddau, ddwedwn i.

Yr ateb efallai yw i'r Academi a'r Adrannau Cymraeg gyd-gynllwynio i sefydlu *Gwefan* i Gymro gwareiddiedig lle y gellid cyhoeddi llyfrau ac adolygiadau rheolaidd ar y We. Mae hyn yn awgrymu bod staff yr Academi yn cydweithredu i olygu'r deunydd hwnnw.

XI

(Gorffennaf)

Ar hyd fy ngruddiau rhedai –
(roedd yna rigol lle yr âi)
ddagrau yn wyllt (neu'n ddigrif)
yn lle'r oedd Gwir a'r llif
o atal. Roedd gorfoledd hy,
llaw i'r awyr i'w rhawio'n ôl
a rhagor o felys bregeth
wynias ei blas yn bleth.

'Ai haul yn unig hwn?'
(Gynnau mewn syndod a ganwn.)
'Ai hwyl ei hun? ' A holaf.
'Ai hufen o fuches haf?'

Dyna don yn afon nef,
diliau o fêl crai dolef.
Hwyrach, tameitiach hiraeth
wrth agor sy'n trawo'r traeth.

Gwae newydd Haf y colli
gwaith am fisoedd, a'i alar

yn colli eilwaith; a châr
bonllef ei choron,braidd

yn ormod coll o'r bron. Cydio mewn darn o'r awyr.
        Clywais symudiad dail o fewn y llwyn

a llanwyd fi â phellter dieithrwch awyr
        lle na bu yn sicr iawn o gadw gafael

ar ei synnwyr fel y dylid weithiau;
        a thrown yn ôl i'r ddaear wedi

fy nychryn, yn gysur bod yn nghalon lleisiau pobl
        Dathlwch fy nychwelyd. Clywch dy glychau'n

dathlu ar unwaith, a thrachefn yn cofleidio adar moroedd
        gyda choflaid tiroedd daear.

XII

(Gorffennaf)

Cefais yr anrhydedd aruthrol o droi fy hobi'n swydd; i dreulio; i dreulio fy mywyd ar ei hyd yn efrydu'r traddodiad llenyddol Cymraeg; i ddarllen ac yna i baratoi darlithiau ar y pwnc, ac i gael tâl a bywoliaeth drwy ymwneud â'm hoff faes. Bob dydd, hyd nes y daeth ymddeol (yn rhy gynnar), oherwydd trymder cynyddol mewn gweinyddu, byddai fy nghalon yn canu wrth gerdded neu wrth redeg i'r Coleg. Roeddwn yn gweld undod Cristnogol ym mhopeth a astudiwn – Dafydd ap Gwilym yn ymhyfrydu yn Offeren y Llwyn ym mhobman, Pantycelyn ac Ann Griffiths yn canu clod i Dduw ac yn uniongyrchol i ryfeddod yr Iesu, Saunders Lewis a Waldo'n'n pyncio'n unol ag angen ein hamseroedd, yn rhwymedig ac eto'n rhydd ynghyd-destun yr Oen a laddwyd er ein mwyn.

XIII

(Gorffennaf)

Mae gwleidyddion yn od. Does dim gwleidyddion yn y nef. Wrth edrych ar y teledu neu ddarllen y papurau, gellid synied nad oes dim pwysicach. Ond llunio a sicrhau cadwedigaeth neu ymarfer y Ddeddf yw'r hyn sy'n bwysicach na dim arall. Pechod yw gwreiddyn y ddeddf ddaearol.

Byddaf yn synied mai sicrhau Undeb a Chydweithrediad yw asgwrn cefn cyfraith a threfn Gristnogol. Ond mae hynny'n naturiol i Gristion yn y nef.

Pa fath o beth sy'n peri bod hynny'n amhosibl?

Dryllio a'i gwna a hynny'n 'naturiol' ym maes cyfoeth daearol yn bernnaf.

Does dim ond brenhinoedd yn y nef. Y nod yw Amryw yn yr Un, yn ôl patrwm Tri-yn Un, dyna yw bywyd ei hun (Salm 63:3). Un greadigaeth sydd Ond Adda ac Efa a'i drylliodd. Mae'n amhosib er lles i bawb. Gras yw hyn. Ond nid oedd amser nefol. 'Pa bai fy nheyrnas i o'r byd hwn, fy ngweision i a ymdrechent i ymladd.' (Ioan 18: 36).

XIV

(Gorffennaf )

Pethau a ddeddfwyd o'u plaid oedd godineb a gwrywgydiaeth yn yr Oes hon, a hynny wrth gwrs yn ymosodol orymdeithiol. Mae'n amlwg mai gorchymyn Duw yw un gŵr i un wraig, Felly y crewyd y corff. Dyna'r drefn sylfaenol.

Gallaf ddeall – fel y ganwyd yn orfodol yr ymarfer o bechod, felly hefyd y ceir tueddiadau mewn cyrff syrthiedig i fod yn ddiffygiol mewn ffyrdd amryfal; ac felly y ceir gwyrdroadau i brofi awyddau amhriodol. Ondni chredaf fody rheini i fod yn rhydd ddiddisgyblaeth.

Y prawf i mi o wendid yw'r orfodaeth i beidio â derbyn yw Gorfodaeth i beidio â derbyn yr un ymgais gan feddygon i ymchwilio mewn meddyginiaeth. Chewch chi ddim ystyried na gweithredu y fath beth, Dyma'r prawf arwyddocaol. Mae'n bryd i unigolion gael y rhyddid ewyllys hyn. Dyna'r hanfod i'r cwymp. A chithau o bosib am fyfyrio am newid, a chodir pob rhwystr yn eich erbyn. Diddorol heddiw (2017) ddarllen am athro ysgol yn colli'i swydd (dros dro nes adfer wedyn) oherwydd iddo roi'r Testament pan ofynnwyd iddo gan blentyn beth oedd Cristnogaeth. Dyna reol yr ysgol, er nad oedd y fath reol ynghylch Moslemiaeth na Chomiwnyddiaeth.

XV

(Gorffennaf)

Yn achos yr ymateb i Foslemiaeth y dyddiau hyn, gellid dadlau mai deall cymhlethdod y rhwystr ymarferol mwyaf peryglus hwn yn yr America, Prydain, Ffrainc, Twrci a Phwyl yw'r anwybodaeth annheg ynghylch cyfraniad y grefydd honno. Drwy ganolbwyntio ar y sect hwn neu'r sect arall fel y mae yn Syria neu Iran, yn bleth drwy bleidio lleol a theuluol, ymlaen i'r Pilipinos ac Awstralia, fe amddifedir pobl o ryddid meddwl.

Codwyd rhyfel cudd ac agored seicolegol. Amheuwyd miliynau o bobl yn annheg. Distrywiwyd dinasoedd, clwyfwyd a lladdwyd miliynau o blant a menywod. Methwyd i bob golwg

â chael ateb unol. Ond newid meddwl a dealltwriaeth a safbwynt oedd yr allwedd.

XVI

(Gorffennaf)

Mae gennyf dro beunyddiol drwy'r fynwent gyfagos. Er bod llawer sydd yno yn ddigyfnewid, megis bedd fy rhieni, mae yna lawer sydd ynddi yn gyfnewidiol, megis y tywydd a mân greaduriaid a hyd yn oed arogleuon yr awyr. Ac y mae hyn fel bai'n amlhau delweddau i'r myfyrion ymhlith y beddau.

Heddiw, ym mhen uchaf y Fynwent, doedd gwir berchnogion y lle ddim yno, meistri mes, y rhai llwyd amhoblogaidd, – erlidwyr y rhai arwynebol dlws, y rhai tybiedig bert coch. Yno, yn y clawdd nesaf at Gae'r Ficerdy o fewn golwg i'r teniswyr acrobataidd eraill yn y cwrt, alltudiwyd y neidwyr nwydus hynny gan amser ffiaidd. Difethwyr delwedd yr hen oes. Ac yswyd tonnau'r wybren o'r rhai bach o'r rhai bach. Rhaid dechrau felly gyda chydnabod colli delweddau'r mawrion.

Ac eto, roedd yna ryw ddelweddau eraill: naws cynhesrwydd gwlyb yr haf, y dail wedi casglu y gwres, ac yn awr wedi ychwanegu yn awr nid yn unig aroglau, eithr blas hefyd. Roedd yna ryw hyfrydwch newydd sbon wedi ymledu i lenwi'r lle.

Ychydig o lathenni ymlaen, mae yna ddau fedd delwedd-lawn – T. Gwynn Jones a'i farmor gloyw, yn anadlu gogoniant rhyfedd ei arddull a'i ddelfrydau; a bedd Gwenallt, ei edmygwr mawr, sy'n gwisgo llechen arw yn ddelwedd oll i bigogrwydd ei feddwl am drychinebau pyllau glo, am drychinebau pyllau glo, am farwolaeth ei dad ei hun, a chymdeithas gynnes y cymoedd, yn disgwyl delwedd yr atgyfodiad (heb ofn) o'r Gwaed budr. Yna'n sydyn fe geir y bedd distadl, y bedd mwyaf diddorol ym mynwent Aberystwyth o ran cynnwys ei gofnod o bob un yma:

HONOR

Darling and only child of

Albert and Gwendoline Potts

Sunny Holme, Portland St., Aberystwyth

Who died Sept., 15th 1940. Aged 12 years

Who gathered the flower? 'I' said the Master

and the gardener was silent.

Also Gwendoline Mary

Devoted Wife and Mother

Who died May 26th th 1966 aged 63 years

Her life a beautiful memory, her absence a silent grief

Albert Edward Potts

Beloved Husband of Gwen

Died June 13th 1973 Aged 74

Byddaf yn moesymgrymu bob tro y pasiaf y cofnod gwefreiddiol hwn, gyda'r ferch yn trengi cyn garwder y rhyfel, y fam yn marw ar oedran naturiol ar y pryd, a'r tad yn disgwyl tan henaint llawn. Gwraidd, Pren, Dŵr y Garddwr.

A dyma finnau wedi symud yn fy mlaen gan fyfyrio ymhlith y beddau. Finnau'n ddelwedd o hen ŵr ; ac wele, mae yna ddwy ferch deuddeg oed yn dawnsio heibio i'r gŵr crwm. Mae'r ddwy yn sbio ar oleddf arnaf, ar sgiw fel petai, ac yna'n gollwng eu llygaid i'r llawr, ac yn nerfus chwerthinog mewn diogelwch gorlac.

Beth oedd hwn? A oedd ei lun yn ddyn tywyll a oedd yn fwy na hen ddelwedd yn gwenu tu mewn, ac a oedd, yntau hefyd cyn eu gweld yn chwerthin eisoes?

XVII

(Gorffennaf)

OFN YN Y NOS

Gwir fod y gelyn am gau – pob ceg
gan y cŵn mewn tyrfau.
Gweddus yw'r gwich o'u gwaeddau
a'r ffydd o goleddu'r ffau.

GWASTRAFF O FERCH

Ow! Dyna rai dynion – a'i myn,
am wn i, i'r afon;
ac yno yn gryno, hon
a chwilia am ei chalon.

XVIII

(Gorffennaf)

YR IACHAWDWR

Nid oes gen ti bwysau gan yr Iachawdwr; ond mae 'na bwys.
Ef yw'r Un sy'n taflu'r ffenestri'n agored,
ac wele, mae'r holl golomennod yn tyrru allan,
ac mae'r canmil yn codi'r meini melin.

Dod adref y maent, ac mae'r stôr yn bwrstio.
Nhw yw'r rhai a brofodd yr Etholedig.
Rhoddant nos mewn difancoll blêr.
Dyna rywbeth i sgrifennu adref amdano.

Mae'r rhai drwg yn cenfigennu atynt.
Ffy cysgodion i gypyrddau. Yr ydym
yn estyn bysedd i deimlo'r toriad ar ei fysedd.
Does dim angen gofyn mwy am drugaredd.

Dydd Sul yw pob dydd i ni. Y mae pawb
ohonom yn feichiog drwy'r sêr. Troir
cerrig yn fara. Ond peidiwch â gofyn
os gwelwch yn dda. Ymwaredwyd â chardotwyr.

Wylofain a wna'r bomiau atomig. Mygwyd
peiriannau a'u hesgymun. Ac eistedda anobaith
ar y mentrus. Aeth y llysoedd cyfraith i
dre-din. Neu'n hytrach aeth y ddeddf ym mhob man.

## XIX

Anghofiodd henaint ymddangos Ei wyneb Ef
yn unig a welwyd mewn ecstasi yn ein bron.
Y fath fiwsig hoyw a newidiasai yn
y Ddaear Newydd, mor dyner y llechweddau.

Roedd pob man yn bont, a phlanedau'n goll.
Dyddiau llawn oedd gan yr adar. Y fath orwelion!
Yng ngwe pry cop yr oedd yn Ŵr Newydd
yn llaw hen ŵr, yr oedd popeth yn digwydd.

Gydag ef mae sbwriel o bob math – broc hen wydrau
a fu mewn llawer parti. Sawl ffydd, disgynyddion,

hen geir, a brigau, llawer o frigau. Beth sy'n gwneud
brigau mor flaenllaw? Gwastraff daearol Hen Ŵr.

Cyn-gariadon. Deifiwch, lanc. Estynnwch eich
gwreiddiau mewn dyfroedd dyfnion. Dyma fe, lanc
wedi gorwedd yn yr hesg mor hir nes bod
y pryfetach wedi torri twll ynddo ar boen eich bywyd.

Bu'r Hen Ŵr yntau'n syllu'n ôl tan gasglu'r wythnosau
yn eu hystafell fawr. Doedd dim angen goleuni yn y lle 'na,
megis y nymffau yn naid i fyny i weld y byd
sydd ohoni. Nac alltudiwch fi ar boen eich bywyd.

XX

(Gorffennaf)

Amau. Gadewch i eraill gyfaddef eu cywilydd.
Cefnwch ar eich barus wyngalch, anwel.
Yn yr hwyr, yn arogli bysedd coesau'r gwely.

Aroglau soniarus, fe fwytâf chwi yn yr hwyrnos.
Fe fwytâf glawr hefyd yn y bore. Chwi biau "ystyr"
o onestrwydd hwyrnos, o onestrwydd bore. O! lesni
bore. O! Garcharorion hwyr. Dyma'r agoriad arian

i Goedlan Plas Crug. Yn y trên, angenrheidiau ar gyfer
y siwrnai-bore, pysgod, a sglodion, saws tomato, gwinegr, a chi;
un o fwystfilod y mynydd. Mae gwanc am gwsg,
fel y bydd Hen Ŵr yn ysu am fygu traed i gyd.

Yn byw o fewn plisgyn wy, yr ydym i gyd wedi treulio botasau
wrth ddringo Pen Dinas. Pam f'atal rhag yfed llaeth? Mae pob
math o anifeiliaid yn f'atal rhag cysgu – cathod, cŵn, udo
pryfed yn fy sanau, pitran patran cesig, a'r alarch yna.

Mae'n syndod cymaint o le i fellt sydd fel anaestheteg Lethe.
Olwyn fawr yn crensian ystrydebau nos fendigaid.
Clymwyd ei chynffon wrth y nos, a'i thynnu ar hyd y cwteri
heb dician wats mewn pâm cynnes wedi'i forthwylio.

XXI

(Gorffennaf)

Teithiwr o fri yw'r Hen Ŵr, er nad oes neb yn gweiddi Hwrê
ar ymyl y glôb. Llithro fel balŵn rhwng dwy glust a'u cludo
dros y tai. Pencampwr mewn dreifio o glogwyni, i lawr yw
i lawr i'r heb gyfrif faint o gyfundrefnau sydd.

Seiren sydd yno, yn cribo cyrliau, ac yn cymryd digon o amser
i'r tonnau dorri ar y tywod. Gwaedda'r dorf eu cymeradwyaeth
am iddi ddod i fyny a'r nos rhwng ei dannedd dafadaidd.

Yn y nos, mae'r trempyn yn dewis twymyn yn hytrach
na chysur cyfeillach. Mae ei lygaid anifeilaidd
yn ysu am borthladd a ffeiriau'r harbwr blinedig.
O! Frawd tryloyw, mae'r pellter yn diflannu, o reddf.

Corws yw un dyn, ond i chwi gael yr amgylchiadau
priodol. Clyw Os crewyd daear, yna crewyd tanddaear
hefyd. Ac ni bydd nos yno. Methir â pheidio â chael
Duw. Mae Ei drigfan yn medru meddwl. Glân yw golau.

Mae'n hawdd wylo pan fydd ci'r nos yn gwrthod tennyn
er mwyn ei thynnu y tu ôl i ti. Gall y nos ddal pysgod
yn arbennig pan fydd hi'n drai ar ddydd Nadolig.
Cymer y ffarwel yn hyn o aeaf ymhlith y diwrnodau.

XX

(Gorffennaf)

Dim ond yr Hen Ŵr sy'n  real mewn rhai tai.
Trowch i'r rhaglen nesaf. Ac ar ganol y we
fry copa, dringer mwy nag y mae'r newyddiaduron
yn ei ddweud. Ystyfnig ydynt mewn chwerwder.

Fe ddysg dyn sut mae anghydweld â'r Hen Ŵr.
Clywch gloch Eglwys Llanbadarn. Dowch i'r tai
coffi at y dysgwyr. Meddyliwch amdanynt hwy.
Sylwch ar eu tafodau hir yn dawnsio'n orfoleddus

.Ganwyd gweledydd i gasglu tafodau pert a'u dodi
yn llwnc gyddfau hwyliog. Yno y mae haf -
yno mae hufen hefyd, ac aelodau mêl.
Calonnau yn y gwymon gerllaw. Mae'r môr yn binc.

Wrth gwrs, gerllaw, mae tipyn bach o sblasio
Gall amrywio a hwylio ymlaen i Borth.
Ond ar flaenau bysedd traed, fe dreia lenwi'r portread
â phyllau bach di-nod, a chyfle i olchi'r traed.

Yn erbyn drygau stormydd y gaeaf, mae'r gân a gyfyd
o'r don, er yn unig weithiau, yn medru casglu
breuddwydion heb eu breuddwydio. Dyna'r mygydau
sy'n realeiddio'n cynhesrwydd yn nannedd Hen Ŵr.

XX1

Daw'r gwragedd i lawr o'r ysbytau a'u llongau'n
orlawn o gargo gwynfyd. O! Sgwneri cyflym
Dychwelodd y gwylanod i hawlio eu hen nythod
Dônt i epilio ac apelio at y rhai anghenus.

Mae'r amser wedi cywir ar ddeial yr haul
a channa'r gwynt ar ddannedd y plu eira
Mae gwynt cnawd yn llosgi, ond  camargraff

yw. Roedd y cnawd wedi'i gamdrin

oherwydd i'r gwynt fynd am dro yn rhy bell,
fel plentyn drwg yn dodi'i law yn rhy agos i'r tân.
Ow! Mam, dere rhwymyn, rhwymyn mawr, mawr,
a lot o eli hyd at y cesail. O! Mam, fy mam.

Dychwelodd i'r ysgol i ddangos i'r plant eraill
am ei drychineb a'i eglurhad am ei dipyn dagrau
Ni lewygodd rywfodd, ac yr oedd rhai o'r plant
cenfigennus wedi amau a ddigwyddodd unrhyw beth.

Ymholi yn y lle iawn. Y tu ôl i'r arch
canwyd Requiem ac oherwydd presenoldeb
Iachawdwr a oedd yn Anweledig ac yn Weledig
yr un pryd gallai'r Hen Ŵr droi hefyd yn ŵr ifanc.

## XXII

(Gorffennaf)

Dylwn nodi yma'r ystyr a roddaf i 'Ddiwygiad Systematig'. Fel arfer, ystyrir bod y Ddiwinyddiaeth honno yn weithred o olrhain ein credo mewn dull cyfundrefnol. Ond y mae popeth yn y Gwirionedd eisoes yn gyfundrefnol. Trefn yw Duw Tri yn Un ei hun; trefn yw'r Waredigaeth a'r holl Ragluniaeth a Chreadigaeth. Ni ellir dianc rhag System: System yw iaith a'r peirianwaith o feddwl.

Bûm yn trafod y math hwn o System gyda Caerwyn yn fynych. Seico-systemateg (Psycho-systématique) oedd un o enwau Gustave Guillaume ar yr wyddor a weithredai ef (Psycho-mécanique). Ond y mae Cristion yn gallu gorfoleddu hyd at ddagrau hidl diolchgar wrth y fath sylweddoliad trefnus hardd.

## XXIII

(Gorffennaf)

Bydd y teledu, i'r sawl a gyfyngir i'r tŷ, yn tueddu i gaethiwo amser ac i oruchwylio sylw. A

pho fwyaf yr edrychwn arno, mwyaf y deallwn fod yna ddiddanwch mewn llofruddiaeth, gorau po fwyaf o'r gwaed hidl a geir ganddo.

Dechreuir mewn pwynt cynnar yn nhrefn rhediad y ddrama, ac yna eir o gam i gam tuag at y fuddugoliaeth tuag at y fuddugoliaeth, fel pe bai'n ysbrydol, pryd y cliriwn ac y ceisir ufuddhau a phuro, os dymunir dianc o enau'r cadwyni naratif hyn.

A ydym wedi gorffen trachwantu am yr hyn yr ydym yn nyddu amdano?

Fe'n dysgir gan blant.

* * *

Anwybyddir cerdded yn y parc a'i ysgafnder, er bod plant ar eu cythlwng yno. Lleddfir y cwbl am un diwrnod – gwyliau personol seren, y ffŵl difrolio dof, wedi dod i roddi, gyda chusanu a dderbynnir – sef gwyliau pum seren â dwylo agored. Dyma lythyrau preifat ye adolesent colli-pen; yn berwi am lawnsio i'r byd rhydd, yn niwedd gaeaf, er mwyn bod yn ddogon hen gerbron cenfigen, cyd-ddawnsio'n wir. Gydag arian rownd a rownd mae serch yn troelli.

* * *

Gwaith academaidd, barddoniaeth, pregetha a erys ar wahân. Bydd storïau a newyddion a newyddion yn diflannu drwy'r sgrîn. Ond mae yna rai caeau bychain hen a fydd yn ystyfnig ac yn ffyddlon i'r hen, hen lwybrau.

## XXIV

(Gorffennaf)

Weithiau y meddyliaf am Luther; ac yno ar y llawr mae'n gwawrio fod y dyn wedi dihuno: ni fyn fod yn fynach fwy. Rholia oddi ar y rheiliau. Yntau'n sianelu'i chwantau, yn hen ŵr aneirif ei hwyliau aneirif ei hwyliau heulog, a'i utgyrn wedi'u cymysgu â'r plant. Yntau â'i chwant a'i antur yn hurt.

'Ow, Martin!' O geg gwraig yn ei harddegau, 'A thi wrthi â'th chwerthin dwl, dylet wybod yn fwy sobor fod plant yn fudur. Maent yn lledu'u menter. Tynnant dy wallt tenau. Ffei â'th stranciau ffôl.' Dyma i Galfin domen: gwyddai am fyd mwy gweddus. Er mai un, a chytûn, oedd eich tonydd chi'ch dau, fe wyddai fe'i le o leiaf.

Priodaist ti yn hwyr am iti fod
yn fynach. Rhegaist wrth i'r plant
eistedd ar dy drwyn. Caet sbort mewn llaid.
Yr hen ŵr yn cael hwyl yn heli'r badau
oedden nhw yn hwylio dros sbri
a charthu chwerthin gyda theganau.

Fysai Calfin ddim yn gwneud pethau
fel yna. Does dim sôn am hwnnw'n gwenu.
Roedd rheswm ym mhopeth.

* * *

Roeddent ill dau yn gwybodaeth
beth oedd yr Amser uwchlaw'r amseroedd
ac am faen yn treiglo oddi ar bwysau pobl.

## XXV

(Gorffennaf)

Wrth lygadu'r llyfrau sy'n dal i orwedd o'm deutu, fan hyn lle'r wyf yn gorwedd fy hun drwy'r dydd cyn dringo i'r llofft, gobeithio y byddaf rywfodd yn weddillion cannwyll fechan sydd dros dro, yn crynu yn y gwynt, ochr yn ochr ag eraill, pobl y pethe, rhai yn caru llên ond yn ei gweld mewn cyd-destun ysbrydol, yn betrus wanllyd efallai. Ond gwn fod yna rywrai, yn gredinwyr yn ceisio cyflawni swyddogaeth gyffelyb i'm hymdrechion pitw i – gyda pheth rhagoriaeth gan lawer ohonyn nhw, Fan yna maen nhw uwch fy mhen – Wyn a Christine James, ac Eleri eu merch, Mererid Hopwood, Robert Rhys, Jason Walford Davies, Robin Chapman, Marged Haycock, Angharad Price, Rhun Emlyn, Gwyn a Glenys Dafydd Ifans, Tudur Hallam, Gerwyn Wiliams, Huw Walters, Peredur Lynch, Alan Llwyd, Philip a Mary Burdett Jones, fy mhlant a'm hwyrion. Mae'n perthynas ni'n mynd yn ôl am rai blynyddoedd. A buont yn annwyl ac yn gysur i mi wrth gamu ymlaen tuag at at y goleuni mawr, a rhai anwyliaid eraill sydd acw hwythau eisoes yn llewyrchu'n ôl atom o'u beddau.

## XXVI

(Gorffennaf)

O ran y dyddiadur hwn, mae hi fel petai pob atgofion wedi bod yn grefyddol.

Ond nid yw hynny'n wir.

Bu llenyddiaeth 'seciwlar' hefyd ar gael bob dydd, ar ryw ffurf neu'i gilydd. Heddiw byddaf yn sôn am ailddarllen Blodeugerdd megis *Barddas o Farddoniaeth Gyfoes,* 1987-2004 oedd y 'Cyfoes' dan sylw. Ni wn sut yr adweithiwn ar y pryd; ond heddiw cefais fy meddiannu gan gerdd Dewi Stephen Jones: y cwbl. Ciliodd enw Dewi o'r cof yn y byd cyfoes oherwydd iddo ysgrifennu rhy ychydig. Ni bu hyn erioed yn hanes yn amod dileu atgof am waith creadigol. Ac mae'r fath sefyllfa'n nodedig ac yn wers.

Mae cerddi Alan Llwyd, 'Gwyrth y Geni' ac 'Wrth Edrych o'n Priodas' yn rhyfeddodau.

Maent yn gerddi delfrydol i brentis eu treulio. Gwaetha'r modd, y mae ysgolheictod a hanes llenorion wedi mynd â bryd Alan yn ddiweddar. Heb fychanu dim ar y rheini cyfyd ar ein gwaethaf hefyd am fwy o gerddi hefyd. Cafwyd gan Mererid Hopwood y ddwy gerdd 'Dadeni' a 'Rhwyg'. Maent yn llawn o'r un cyfrwysedd ac awgrymusedd ag sydd gan Dewi Stephen Jones, Mae gan y ddau yr un dychymyg arluniol.

Ceir eraill yn y gyfrol a chanddynt gerddi nodedig, ond ddim yn dod â'r un grym annisgwyl ag a brofwyd gan y bardd hwn. Rhaid cofio bod cerddi yn gallu cerdded yn gadwyn o gyfnod i gyfnod, ond gormod ohonom yn eu darllen chwit yn ôl awch  y funud, gwaetha'r modd.

XVII

(Gorffennaf)

Un cwestiwn y bûm yn pendroni ynglŷn ag ef o bryd i'w gilydd oedd 'Bedydd' (Llwyr ymdrochi). Bedyddwyr oedd fy nheulu i gyd ar y ddwy ochr. Bedyddiedig yw llawer o'r wyrion.

Pryd bynnag yr holaf gyfeillion bedyddiedig pam y glynant hwy wrth y dull hwn a adferwyd gan yr Anabaptisiaid duwiol gynt, yr hyn a ddwedant yw 'Ufuddhau.'

Yn awr, y mae llu o bobl yn ein traddodiad ar ei hyd – Calfin, William Morgan, Daniel Rowland, Pantycelyn, Howel Harris, John Elias, a'r Wesleaid i gyd, Martyn Lloyd-Jones – oll wedi cael eu cydnabod gan bob efengylwr fel Cristnogion cywir, a hwythau heb eu bedyddio drwy lwyr ymdrochi, sut y gall hyn fod? Ai anufuddhau a wnaethant? At ei gilydd, nid oeddent wedi meddwl am y peth. Dr Martyn yw'r unig eithriad. A pheidiodd ef.

Ai brawd gwan oedd ef? Ynte, ai gwan yw'r rhai sy'n glynu wrth y seremoni?

Nage. Symbol yw, sagrafen, sêl ystyrlon, gair gweledig, ac y mae'n 'llwyr' am ei fod yn arwydd o newid popeth, o aileni.

Bydd rhai efengylwyr yn gwgu ar y rhai carismatig sy'n codi llaw yn yr eglwys. Tybiant fod hyn yn adlewyrchu emosiwn ac arddangosiad. Ond gwn innau fy mod i yn y festri ar mhen fy hun, ar fy matras yn gorwedd oherwydd fy mod yn methu ag eistedd, ac yn clywed trwy offer-clywed, o'r golwg, yn codi llaw, dwy law, mewn dagrau o orfoledd – yn arbennig yn ystod y canu.

Cyfaddefaf hefyd 'mod i wedi cael bendith lawer tro hyd at wefr. Symbol yw o lawenydd a hyfrydwch yn realaeth yr efengyl, ac yr wyf mor falch i fod yno. A diolchaf i'm brodyr bedyddiedig am ddarparu'r fath fendith i bechadur cadwedig gwan.

XVIII

(Gorffennaf)

Un o'r hen wynebau sy'n dod i'm meddwl i o hyd yw Caerwyn. Un yw a ddioddefodd salwch a gwendid am flynyddoedd lawer o ddiciáu pan oedd yn ŵr ifanc.

Ar ôl priodi Gwen, a mwynhau'r gofal am flynyddoedd lawer, bu farw yn 1999. Er clywed llawer amdano, ni wyddwn fawr amdano nes iddo ddod i Aberystwyth. Yna, byddwn yn ei weld ef yn feunyddiol gan fod ein hystafelloedd yn nesaf at ei gilydd.

Pan ddaeth y gadair yn rhydd, cafwyd teyrnasiad euraid fy mhennaf cyfaill Geraint Gruffydd. Yr oedd hwnnw nid yn unig yn ysgolhaig eithafol ddiwyd hefyd, yr oedd ef hefyd yn rhoi ei amser yn ddiarbed i weinyddu, ac a roi ei oriau i fugeilio myfyrwyr mewn modd diarhebol o ymroddgar. Gwrthodwn innau gynnig am ei swydd er i'r prifathro ei hun geisio fy mherswadio i. Ni fedrwn fod yn olynydd teilwng yn ei swydd. Gwell gen barhau i roi fy egni i ymchwilio yn fy maes, ac i wneud peth gwaith creadigol. Ni chynigiais am benaethdod yr adran. Ac roeddwn yn benderfynol o ymwrthod. Aeth heibio'r dyddiad cau am gynnig.

Yna, daeth Caerwyn i'm gweld cartref. Buom ni yn y parlwr yn dadlau am oriau. Yna aethom am dro ar hyd Plas Crug, a cherdded o gylch amgylch y tŷ. Soniais am y dychryn a brofwn ynghylch gweinyddu. Ac yna torrwyd fi. Ni byswn wedi cynnig am y swydd nes i Caerwyn addo y gallai gŵr o'r enw Emrys Evans gael ei enwi ganddo i fod yn olynydd yn y gadair Wyddeleg, oherwydd y gwaith gloyw a wnaethai ym mhwyllgor gweinyddol Llyfrgell Prifysgol Manceinion.

Ac yn wir, daeth Emrys Evans i ymgymryd ag aelodaeth pwyllgorau'r Gyfadran a'i Deoniaeth. Swydd drom a oedd yn wrthun i bawb. Wedyn, pan symudodd Caerwyn i gadeirio'r Ganolfan Ymchwil i'r Llyfrgell Genedlaethol (lle yr oedd Geraint yn bennaeth) byddwn yn ymweld â Caerwyn am awr bob dydd Gwener i drafod (neu'n hytrach i wrando arno'n trafod Llenyddiaeth y Celtiaid ac yn arbennig yr Wyddeleg ar Gymraeg a'r Llydaweg, a'r cylchgronau lawer a olygai. Golygai fwy o gylchgronau na neb erioed yn hanes Cymru, fel yr honnwn mai ef oedd y gŵr mwyaf golygus yng |Nghymru.)

Y mwyneiddiaf o ddynion, a'r anwylaf, ac fel sy'n gweddu i'w gymeriad a'i ysgolheictod, fe adlewyrchir y gamp honno gan y rhestr o ddisgyblion galluog sy'n ddiolchgar iddo am ei ddylanwad, rhai megis Geraint Gruffydd, Geraint H. Jenkins, Prionsios Mac Cana, Mary Burdett-Jones a Marged Haycock. Ni fu neb yn debyg iddo. Rhoddodd ei fywyd i gyfoethogi'r wlad.

Bûm innau'n trafod diwinyddiaeth yn helaeth gyda Caerwyn. Bwriadodd ef ar un adeg fynd i'r weinidogaeth. A byddai'n pregethu'n aml ei hun, yn ei ffordd dawel a mwynaidd ei hun. Tueddu i fod yn uniongred iawn gyda Carl Barth yn batrwm iddo.

## XIX

(Gorffennaf)

Ymdroi y  bûm yn ddiweddar â phroblem bersonol feirniadol.

T.S. Eliot ac F. R. Leavis oedd dau feirniad mwyaf dylanwadol Lloegr yn yr ugeinfed ganrif: T.S. Eliot y beirniad gwâr ac F.R. Leavis y beirniad gwyllt.

Roedd y ddau yn rhyfelwyr. Ond milwr gwareiddiad mwyn oedd Eliot. Roedd F.R. Leavis yn gallu colli'i natur a bod yn ymosodol limpin.

Roedd y ddau yn ymholi beth oedd ystyr bywyd, y naill yn Gristion clasurol a'r llall yn Iddew agnostig. Gofynnent ill dau beth oedd pwrpas llenyddiaeth.

Ond erbyn hyn, i ni, y maent yn bell ac yn ddieithr. Roedd y naill a'r llall beth oedd  natur meddwl beirdd. Cyn cael Mynegiant – eu testun cyfoes hwy, yr oeddent wedi hepgor trefn y meddwl cynhyrchiol, y ddeinameg, a'i adeiladwaith cyfundrefnus mewnol. Mae'n amlwg bod strwythur yn y fodolaeth greedig ac mewn bywyd yn gyffredinol cyn bod mynegiant amdanynt yn dod i'r golwg. Felly, ochr yn ochr â'r llenyddiaeth unedig sy'n gynlluniedig meddwl effro y darllenydd, mae yna adrannau sydd hefyd yn gynlluniedig yn anochel ym mhen y celfyddydwr yn barod isymwybodol. Gwelir hyn yn sylwadaeth hynaf beirniadaeth Gymraeg fel y'i ceid yng Ngramadegau'r Penceirddiaid ymlaen hyd at Saunders Lewis.

Archwiliwn ninnau hyn oll yn anochel os ydym am wybod beth sydd wrthi'n cynhyrchu. Pa fath beth beth yw dyn yn ei natur os yw Duw yn rhoi'i Fab i farw yn ein lle? Brawd yw'r ateb. Brawd yw'r ateb. Brawd yw'r ateb. Ymhlith pethau eraill, pwysig yw'r sylweddoliad amhoblogaidd fod system yn sylfaen i fywyd oll.

Ffolineb yw osgoi hyn.

Undod yw'r gwaith a dderbyniwn.

Ond yn yr undod, heb fod yn undonedd, mae yna amrywiaeth. Mae'r amrywiaeth yntau'n ddeuol – sydd hefyd yn amlwg mewn rhai cyfeiriadau – dau lygad, dwy fraich, dwy goes, newydd a hen, presennol ac absennol, byw a marw, gwryw a benyw wrth gwrs. Ond gyda hynny, mewnol ac allanol, unigol a lluosog. Ac i Gristion, naturiol a goruwchnaturiol.

Wedyn, mae yna driol: gorffennol, presennol, dyfodol; a'r Drindod Fendigaid.

Crybwyllais 'luosog' wrth sôn am ddeuoliaeth. Ond, wrth gwrs, mae yna amlder ac unoliaeth sy'n ymddangos yn 'llawer' afradlon ac 'unigol' syml – gwallt, sêr, galaethau, deg o fisoedd.

Yn hyn oll i gyd, mae yna ryfeddod. Ac i feirniad, os yw'n ceisio cadw cydbwysedd a chyflawnder, y mae cadw hyn oll mewn golwg yn deg, yn gywir, ac yn onest.

## XX

(Gorffennaf)

Mae achos John Stott a'i ddirywiad terfynol yn codi cwestiwn difrifol a thrist ar ei enw a'i

hanes. Bu ei fywyd yn gymaint o ddaioni cyfrannol, ond y terfyn mor wrthun.

Datganodd ei gred nad oedd uffern yn gosb dragwyddol ymwybodol. O ble gafodd ef y fath safbwynt cyfeiliornus ond gan y Diafol 'cysurlon' ei hun? Distrywiwyd rywsut bopeth arall a sgrifennodd yn ystod ei fywyd.

Dichon mai dros dro yn unig yng nghudd ei feddwl y bu iddo goleddu'r edifeirwch. Ond lledodd ef ei ddylanwad drwy gydol yr Eglwys Anglicanaidd tuag at eciwmeniaeth ar y pryd. A thrwy anelu at undod fe gafodd rwyg ymhlith rhai a arddelai'r Ffydd. Ond dewisodd beisio â sefyll. Ym mryd ei edmygwyr, fe drodd oddi wrthynt. Os oedd wedyn wedi newi ei feddwl yn ôl i'r ffydd ddiffuant – heb ddweud wrth eraill, ni chafwyd edifeirwch agored ac amlwg. Ni chyffesodd ei fai yn y golwg. Gallasai fod dros dro yn unig. Pwy a ŵyr ond Duw ei hun?

Y gwir fyddai felly ei fod ef yn ymddangosiadol wamal dros dro, a bu hyn yn siom – ac yn rhybudd i'w gyd-gredinwyr, y gallent hwythau eu twyllo'u hunain eu bod wedi bod yn genhadon dros y gwirionedd ac yn gydnabyddedig felly, o'r golwg, ond yn wyneb y goleuni tragwyddol hunan-dwyll oedd.

## XXXI

(Gorffennaf)

Soniwn fod gennyf arferiad cyndyn i chwilio am batrymau. Ac y mae hyn yn ei amlygu'i hun yn y duedd sydd gennyf i ganfod trefn seml, undonog ond hollol anochel yn y 'Bregeth Efengylaidd'. Trefn sylfaenol Gwirionedd yr Hanes tragwyddol ydyw.

Ceir dwy ran bob amser. Gosodir yn gyntaf y condemniad. Hynny yw datgelir yr angen. Nis gwelir gan y dyn naturiol. Fe anwyd hyn gydag ef, er na wyddai hynny.

Yna, cynigir yr Ateb – bob Sul, dro ar ôl tro. Dyna'r gynulleidfa yn gorfod aros yn eu seddau i glwed hyn. Fe'i gwyddent yn barod. Ac eto, yn rhyfedd iawn fel y llawenhânt o glywed y fath ailadrodd.

Mae hyn yn rhyfedd iawn.

Pam a sut yr ymatebent yn y fath ffordd?

A cheir yr ateb yn syth iawn yn y gymhariaeth â chariad mab a merch. Mae ef yn y mwynhad o ddweud bob dydd: fel y mae'n dwlu ar ei gariad. Mor felys a hyfryd yw hi. All e byth gael digon ohoni.

All y naill a'r llall ddim para hebddo. Mae'n achlysur i ddiolch. Gras yw, a does dim terfyn bydol ar y fath beth. Haleliwia!

## XXXII

(Gorffennaf)

Efallai mai'r hyn sy'n llyncu bywydau a safonau pobl yn anad dim yw cyhoeddusrwydd. Wrth gwrs, y mae'n weddus lledu'r Efengyl. Dyna'n wir a ofynnir gennym. Dyma bennaf diddanwch y credadun.

Ond y mae'r Arlywydd Trump yn yr Unol Daleithiau, yn mynnu cyhoeddusrwydd a sioe ar raddfa gawraidd eithafol. Dywedir ei fod, yn bersonol, yn gallu cael gloddestrwydd o fod yn ddymunol. Ond anodd credu bod neb erioed i'r un graddau wedi ymdrechu i ddychanu'r fi, fi, fi angerddol. Ac o'r herwydd, fe'i hamgylchwyd gan wenieithwyr, a'u celwydd hwy a'i gelwyddau ef, yn ymchwyddo nes bod llygadwaith America yn popian.

Digwyddodd yn y blaid 'Gweriniaethol' y'i cafodd ei hun – yn etifeddol, ac yn addysgol; ond gallasai fod yn 'Ddemocrat.' Mae Rhyddfrydiaeth wleidyddol a chrefyddol yn gallu bod yr un mor eithafol. Gall hyn ddatblygu'n unbennaeth – a gwneud y teledu'n llethol o undonog. Oni bai fod y canlyniadau perthnasol mewn gwlad näif, mi fysai'n ymddangos braidd yn gomiwnyddol ddi-ots.

Gwae ni. Erbyn hyn, mae miliynau yn America, a miliynau ledled y byd sy'n methu ag ymddiried ynddo. Mae'r Wasg yn llunio blodeugerddi o'i wib-lythyrau. Yr unig rinwedd sicr mewn papur newydd yw'r cofnodion sy'n nodi ffeithiau marwolaeth hwn a hwn.

Gwelwyd bod tueddiadau digon tebyg wedi codi mewn crefydd yn yr India, China, a Chorea, ac yn y blaen; ond hyd yn oed yn yr hyn a ystyrid yn Gristnogaeth – yn Iwerddon.

Beth yw hyn oll?

Dim llai na phechod syml, sef alltudio Ysbryd Duw.

## XXXIII

(Gorffennaf)

Efallai mai'r hyn sy'n llyncu bywydau a safonau pobl yn anad dim yw cyhoeddusrwydd. Wrth gwrs y mae'n weddus lledu'r Efengyl. Dyna'n wir a ofynnir gennym. Dyma bennaf diddanwch credadun.

Ond y mae'r Arlywydd Trump yn yr Unol Daleithiau yn mynnu cyhoeddusrwydd a sioe ar raddfa eithafol. Dywedir ei fod, yn bersonol, yn gallu cael gloddestfeydd o fod yn ddymunol ac yn glên. Ond anodd credu bod neb erioed wedi llwyddo i'r fath raddau i ddyrchafu'r fi, fi, fi angerddol. Ac o'r herwydd, fe'i hamgylchwyd gan wenieithwyr.

Digwyddodd mai yn y blaid 'Weriniaethol' y'i cafodd ei hun – yn etifeddol, ac yn addysgol, ond gallasai fod wedi bod yn 'Ddemocrat.' Mae Rhyddfrydiaeth wleidyddol a chrefyddol yn gallu bod yr un mor eithafol. Gall hyn ddatblygu'n unbennaeth – a gwneud y teledu yn llethol o undonog. Oni bai fod yn canlyniadau perthnasol mewn gwlad näif, mi fysai'n ymddangos braidd yn ddi-ots.

Gwae ni. Erbyn hyn, mae miliynau yn America 'y rhydd', a miliynau ledled y byd sy'n methu ag ymddiried ynddo. Mae'r Wasg yn llunio blodeugerddi o'i lythyrau. Yr unig rinwedd sicr mewn papur newydd yw'r union gofnodion am ffaith y farwolaeth.

Gwelwyd bod tueddiadau digon tebyg wedi codi nid yn unig mewn crefyddau neu ddiffyg crefydda yn yr India, China, a Gogledd Corea, a hyd yn oed yr hyn hyn a ystyrid yn Gristnogaeth – yn Iwerddon.

Beth yw hyn oll?

Dim llai na phechod syml, a chelwydd, sef alltudio Ysbryd Duw.

XXXIV

(Gorffennaf)

Yn sgil gwaith academaidd, buost ti'n tueddu i weld ac i geisio defnyddio deuoedd, ac yn sgil y deuoedd drioedd. Patrymau dwyfol. Nid hyn ond hyn sy'n wir. Nid yw'r math hwn o wahanu dogmatig yn dderbyniol i'r Ôl-fodernydd. O ganlyniad i hynny, gwelid bod cyferbynnu crediniol yn anochel; ac wedyn yn ddieithriad bregethu efengylaidd ar ffurf bendant yn bosibl, yn wir yn rhaid.

Dyna'r gwrthod; a dyma'r o'r herwydd y derbyn.

Sylwir mewn llenyddiaeth ar y patrymau mewn Cynnwys a Ffurf, y naill yn gorfod cael ei ragflaenu gan y llall, ac o anghenraid yn ysgogi'r llall ar ffurf bendant. Nid pregethu ffurfiol (ysgrifenedig felly) o raid. Ond pregeth efengylaidd sy'n dilyn patrwm cwbl anochel.

Sylwer ar y patrymau hyn mewn Ffurf a Chynnwys, y ddeuoliaeth angenrheidiol a sylfaenol i bob gair, ac i'r cyfuniad. Awgrymir y Cynnwys mewn termau megis 'damhegion, emyn, alegori, salm, llythyr (epistol), gorchymyn.' Awgrymir y Ffurf mewn termau megis 'dadlau, cwestiyna, ac ateb, gorffen, cwblhau, amser (pennill, stori fer).'

Ond y mae'r cyfle i'r cyfannu a'r cyfansawdd llawn, cyfan amlochrog wedi rhoi achlysur i ti ystyr y cyfuniad cyflawn. Ac fe wnest ti hynny drwy gyfuno'r termau 'Gras Naturiol' a 'Gras Cyffredinol.'

Mae'r rhain yn cyfleu'r wedd ysbrydol yn ogystal a'r wedd gorfforol. Y gair 'Gair' sy'n gwthio tuag at sylweddoliad goruwchnaturiol. Rhodd o'r tu allan i ni yw. Nis ceir ond gan Dduw. Dyma athrawiaeth iach y Cristion. Dyma amlder yr efengyl ddifesur sy'n cylchu pob profiad, ac yn condemnio'n gyferbyniol y dirywiedig.

XXXV

(Gorffennaf)

Hyn oedd yn gwarant-chwilio bod y tŷ
yn llawn o thus a myrr, – didwyll

a di-dwyll, am fod rhywbeth arall
ar gerdded. Ei daro cis gymnastig a gaed

mewn digrifwch melyngoch, glasbinc, amryfal
haniaethau yr afalfreuant, croth y gras,

dedfryd bywyd, heb lamp-ôl a geir yn ei hiraeth
comiwnyddol go iawn. Hyn a adroddir gan

mai anadnabyddiaeth y teipiadur, yn plicio
gefel oedd yr awtopsi; a digon oedd hyn hefyd.

XXXVI
(Gorffennaf)

Dichon fy mod wedi gogordroi ryw ychydig bach wrth raffu ryw eiriau.

Henaint yn ddiau.

Ac y mae'n f'atgoffa am hanes a ddarllenais i gan Alwyn D. Rees, ond ni wn ymhle y mae bellach. Sôn a wnâi am ymholiad yr Esgob ar ei ymholiad achlysurol iawn ag eglwys leol. Pryd bynnag y dôi'r Esgob ar ei dro, byddai clychau Eglwys yn canu. Y tro hwn, sut bynnag, distawrwydd a deyrnasai. A holodd yr Esgob pam. 'Mae yna brinder sy'n hyfforddedig yn y dasg o ganu'r clychau; maen nhw'n canu mor uchel nes bod pobl y plwyf yn cwyno; dim ond pedwar o hen bob sy'n dod i'r plwyf erbyn hyn; ac yn olaf, does gynnon ni ddim clychau.'

'Tewch, tewch, pam na ddwedsoch chi hynny'n gyntaf.'

Ac felly y digwyddodd i'm hawen i.

Pallodd y dyfroedd â rhedeg. Sychodd yr awen. Doedd dim ar ôl. A chwerddais am fy mhen fy hun.

Mae'n bryd i mi wneud fy mhedwerydd tro am heddiw. A dyma fi'n cwrdd â ffrind, a gyfeiriai at yr oriel i wylio'r 'Ymwelwyr â'r Tîm o Aberystwyth. 'Bob nos,' meddai, mae yna drempyn, yn oerni'r gaeaf, yn cysgu'n afiach yn nhywyllwch yr oriel, yn cysgu, yn crynu yn oerni'r gaeaf, yn cysgu – os caf ddweud – yn ei boer diflas ei hun.'

'Wel,' meddwn i, yn ddifeddwl, 'Mae gan hwnnw stori y mae eisiau'i dweud.'

Ac yna, dwi'n bloeddio, 'Tyf 'lan.'

XXXVII

(Gorffennaf)

Wrth lygadu'r llyfrau sy'n dal i orwedd o'm deutu, fan hyn lle'r wyf yn gorwedd fy hun drwy'r dydd cyn dringo i'r llofft, gobeithio y byddaf rywfodd yn weddillion cannwyll fechan sydd dros dro yn crynu yn y gwynt, ochr yn ochr ag eraill, – pobl y pethe, rhai yn caru llên ond yn ei gweld mewn cyd-destun ysbrydol ac yn sialens, yn betrus wanllyd efallai. Ond gwn fod yna rywrai, yn gredinwyr neu'n anghredinwyr yn ceisio cyflawni swyddogaeth gyffelyb i ymdrechion pitw'r gorffennol, i bontio'r cenedlaethau'r gorffennol – gyda pheth rhagoriaeth yn aml. Fan yna maen nhw uwch fy mhen – Wyn a Christine James, ac Eleri eu merch, Mererid Hopwood, Robert Rhys, Jason Walford Davies, Robin Chapman, Marged Haycock, Angharad Price, Rhun Emlyn, Gwyn a Glenys Davies, Dafydd Ifans, Tudur Hallam, Gerwyn Wiliams, Huw Walters, Peredur Lynch, Alan Llwyd, Philip a Mary Burdett, fy mhlant a'm hwyrion. Mae'n perthynas ni'n mynd yn ôl am rai blynyddoedd. A buont yn annwyl ac yn gysur i mi wrth gamu ymlaen tuag at y goleuni mawr; a'r anwyliaid sydd acw hwythau yn llewyrchu'n ôl atom eisoes yn fyw, o'u bedd.

XXXVIII

(Awst 24, 2017)

Un cwestiwn y bûm yn pendroni ynglŷn ag ef o bryd i'w gilydd oedd 'Bedydd' (Llwyr ymdrochi). Bedyddwyr fu fy nheulu i gyd ar y ddwy ochr. Bedyddiedig yw llawer o'r wyrion.

Pryd bynnag y byddaf yn holi cyfeillion bedyddiedig, pam y glyasnt hwy wrth y dull hwn a adferwyd gan yr Anabaptisiaid duwiol gynt, yr hyn a ddwedant yw 'Ufuddhau'.

Yn awr, y mae llu o bobl yn ein traddodiad ar ei hyd – Calfin, Luther, William Morgan, Daniel Rowland, Howel Harris, Pantycelyn, John Elias, a'r Wesleaid i gyd, Martyn Lloyd-Jones – oll wedi cael eu cydnabod yn Gristnogion aeddfed yn eu hoed a'u hamser, heb wneud hynny i fod yn symbol o faddeuant, yn foddion Gras.

Sut y gall hyn fod? Ai anufuddhau a wnaethant? Ddim o gwbl. Nid oedd yr un ohonynt wedi meddwl am y peth – heblaw Dr Martyn. A pheidiodd ef.

Ai brodyr gwan oeddent, a'r rhai yn yr eglwysi bedyddiedig yn unig sy'n dal i arddel y dull hwn?

Nage.

Symbol yw lle bynnag y digwydd. Sêl yw. 'Gair' gweledig yw, ac y mae'n 'llwyr', fel tystysgrif geni (neu aileni), am ei fod yn arwydd o newid popeth.

Bydd rhai efengylwyr yn gwgu ar y rhai sy'n codi llaw yn yr eglwys. Tybiant fod hyn yn adlewyrchu emosiwn ac arddangosiad. Ond gwn fy mod yn niogelwch y festri ar y llawr o'r golwg, yn gwrando ar y gwasanaeth drwy offer clywed – yn codi llaw  yn fuddugoliaethus, dwy law, mewn dagrau o orfoledd, yn arbennig yn ystod y canu.

Cyfaddefaf hefyd fy mod i wedi cael bendith lawer tro mewn gwasanaeth bedydd – ar lan y môr, ac wedi cael gwefr. Symbol yw o lawenydd a hyfrydwch yn realaeth yr efengyl, ac yr wyf mor falch i fod yno. A diolchaf, mor falch i fod yno. A diolchaf i'm brodyr bedyddiedig am ddarparu'r fath fendith i bechadur cadwedig gwan.

## DWEUD

Nod gerddorol yn yr awyr, yn lleisio, fel awyren,
fel ambiwlans-achub dringwyr ddibrofiad yr Wyddfa.

Bob amser mae'n ddieithryn. 'O!' meddai fy mab bychan,
liciwn ddringo 'lan nes bod fy nghylla'n poeni.

Mae bola tost yn hardd yma, a rhyw bigau bach
yn anturio o'i amgylch.' Yr wyf yn gallu'i

ddilyn i Fadagascar, Corea, Tsheina, a Phatagonia,
fel cenhadon yn cario Duw i'r blacs. Mae eu tafodau,

yn gynnar y bore, ar gamelod wrth y llepian gwlith,
wedi cael yr addysg orau dan awdurdod Ceredigion.

Bydd eu henwau hwy yn byw mewn ogofeydd taranog.
Tybir mai efelychiad ŷnt i freuddwydion y paith.

A phan ddaw sliperi i chwerthin yn eu hancesi,
bydd y bechgyn bach yn gwybod yn gadarn mai troi

tuag adref a wnânt mor rhwydd oedd. Rhaid
ymghymwyso wrth ddychwelyd i arferoldeb digrif daear

at y blodau'n gyffredin, olwynion-gweddi Eferest. Buom acw
yn yr amhosibilrwydd mud, a ninnau'n fechgyn wedi'n llunio'n lân

o gymylau, yn barod i fynd adref at mam – a dweud
a dweud a dweud nes bod ei llygaid hi'n popian.

## SGIDIAU

'Glanha dy sgidiau' y byddai mam yn ddweud
bob amser cyn imi deithio ar dro i siopa.

'Dyna dri chwarter y gwaith,' meddai hi. A siŵr,
roedd cyngor mam yn werth ei gael. Gallwn i fod

yn hyderus y byddai popeth yn ei le – y siwgr,
y fynwent, y sachau cysgu, bananas, a phwdin reis.

Ar ôl y dagrau, yr oedd y gwynt yn dawelach,
neu'r glec yn erbyn y cledrau. Roedd popeth dan reolaeth

bersonol. Rywsut, yr oedd pawb yn falch ei wala, mor hardd,
amhosibl ei enwi. Ymgodwn gyda'n gilydd, mam a fi.

Nid sgidiau'n unig, ond crys a bysedd, ond marmor Eidalaidd,
llafurwyr y gwaith copr, rhyw sŵn nas deallwyd yn gymwys.

## FY NHAD GWYN

Mae 'na rai pobl y mae eu gwenau'n hwylio'n
hwyliog o gylch ymylo eu gwefusau. Ac mae'na

eraill... ond gallant gelwydda. Gall y gwefusau'n
llwyr o lac fod yn fradwyr cyfeillgar. A'r lleill

gallent, er mor bell, fod yn fewnol o braf pan fyddant
yn ddigon sobr eu hymarferiad. Pethau yw gwenau

a all fynd am dro i wledydd ar draw yr eigion ar draws yr eigionau
ac a gafodd y cyfle o bosib i fabwysiadu gwisgoedd ffriliog. Y lleill,

a lechant y tu ôl i feddrodau'n wyngalchog? Edrychwch, fy ffrind, drwy
gerrig. Edrychwch hirwalltog? Dowch i lawr

o'r tyrrau marmor. Canys wrth eu pasio mewn car, ceir cipolwg
o'r twyll carpiog. Druan o'r dreiniau. Rhaid peidio â bod

ar frys mewn byd lle mae prydyddion yn hawlio
cryn adnabyddiaeth cyn i'r cuddiedig yn ddifyr gripian i mewn

ac adeiladu aelwyd, aelwyd o sisial goludog allan i'r môr sychedig
a phell a fyn guddio'r strydoedd, a chamarwain y gorau ohonom.

Mae llawer yn anghyffyrddedig. Rhaid tyfu, fel y bechgyn
yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a ddringodd drwy simneiau.

**Y FFARWEL WEDI'R FFARWEL**

I

Mae eisiau i mi esbonio pam yr wyf wedi penderfynu peidio ag ysgrifennu mwy.

Mae arnaf chwant rhoi'r gorau i'r ymarferiad dyddiol hwn.

Yn un peth, mae arnaf awydd i wrando ar fwy o gerddoriaeth. Rwy'n teimlo angen i brynu a darllen llyfrau pobl eraill. Liciwn i fyned am dro dair gwaith o gwmpas y fynwent bob dydd yn lle dwy waith sydd wedi bod yn arferiad ers tro.

II

Rholio ynddo'i hun yr oedd yno, mewn cuddfan –
cuddfan o wybren, gyda'r haul a'r lloer
a'r sêr a'r hunan unig ganddo yn llawn pobl
Perfformiai'n hyderus mwyach fel plentyn.

Edrychai oddi amgylch ar ddieithrwch
anhysbys ond cyfarwydd ag ef ei hunan.
Roedd rhai'n welw, eraill yn hyderus o goch,
eithr neb oll wedi'i lusgo ymlaen heb ystyr.

Yn araf deg, fe ddysgid am gyfeillgarwch.
Dysgid beth oedd bys a bawd, a sut
yr oedd hwylio yn y gwynt whiw o'r newydd
nofelau, storïau, ac arwrgerddi digrif.

Môr o ddeilios oedd pobman. Dysgent
sut oedd hwylio yn y gwynt hwn
heb golli'u llwnc. Heb het ni allai fod
yn drais nac yn dyliniad chwaith.

Llosgwyd y bysedd gan yr haul noeth.
Cosb oedd ef ar yr wyneb. Ymguddiai
rhag dannedd dodi y tywydd crai.
Dyma oedd y ffordd i ddysgu galar diogi.

III

Mae rhai cyfeillion newydd yn gallu
bod yn boendod. Byddant fel oriau
yn ei lordian hi. Nhw biau'r giamocs i gyd.

Bydd eu trwynau'n busnesa ym mhob
cornel. Dim cysgodion cudd. Dim
ogofeydd. Dim hapusrwydd gwneud y fan 'ma.

Dim ond ffenestri gwag. Gwell ailchwilio'r
cwpwrdd, na chael dillad newydd sbon
fel ffynnon yn hongian dros ymyl rhaeadr.
Geiriau yw'r rhaeadr mewn cornel
yn areithio ar lwyfan. Dŵr yw
y bydd y plant yn trochi trwyn ynddo.

IV

Rholio ynddo'i hun yr oedd, mewn cuddfan –
cuddfan o wybren, gyda'r haul